

Cynnwys

Rhaglen	2
6 - Cofnodion y cyfarfod diwethaf	8
8 - Polisi Gosod Cyffredin a Dyranriad Tai Cymdeithasol	13
9 - Cynllun Iaith Cyngor Gwynedd - Adroddiad Monitro 2013-14	16
Atodiad 1	41
Atodiad 2	47
10 - Diweddariad ar y Safonau Iaith	50
11 - Rhaglen Waith y Pwyllgor	51
12 - Ymgyrch Mynyddoedd Pawb	53
Atodiad 1	55
Atodiad 2	56
14 - Cwynion Iaith	57



Gwasanaeth Democraidd
Democratic Service
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod / Meeting

PWYLLGOR IAITH
LANGUAGE COMMITTEE

10.30AM, DYDD IAU, 26 MEHEFIN, 2014

10.30AM, THURSDAY, 26 JUNE, 2014

Lleoliad / Location

SIAMBR HYWEL DDA,
SWYDDFA'R CYNGOR / COUNCIL OFFICES,
STRYD Y JÊL / SHIREHALL STREET,
CAERNARFON

Pwynt Cyswllt / Contact Point

EIRIAN ROBERTS

(01286) 679018

maireirianroberts@gwynedd.gov.uk

(DOSBARTHWYD / DISTRIBUTED 18/06/14)

PWYLLGOR IAITH LANGUAGE COMMITTEE

AELODAETH/MEMBERSHIP (15)

Plaid Cymru (8)

Y Cynghorwyr/Councillors

Craig ab Iago

Elwyn Edwards

Alan Jones Evans

Sian Gwenllian

Dyfrig Jones

Liz Saville Roberts

Mair Rowlands

Mandy Williams-Davies

Annibynnol/Independent (4)

Y Cynghorwyr/Councillors

Tom Ellis

Eric M.Jones

Eirwyn Williams

Elfed Williams

Llais Gwynedd (3)

Y Cynghorwyr/Councillors

Gweno Glyn

Alwyn Gruffydd

Gruffydd Williams

Aelodau Ex-officio/Ex-officio Members

Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Cyngor / Council Chairman and Vice-chairman

Aelod Arall a Wahoddir / Other Invited Member

Y Cynghorydd / Councillor Ioan Thomas – Aelod Cabinet – Y Gymraeg / Cabinet Member – The Welsh Language

RHAGLEN

1. CADEIRYDD

Ethol Cadeirydd am 2014/15.

2. IS-GADEIRYDD

Ethol Is-gadeirydd am 2014/15.

3. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

5. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

6. COFNODION

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod diwethaf o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 4 Ebrill, 2014 fel rhai cywir (ynghlwm).

7. ADRODDIAD YR AELOD CABINET – Y GYMRAEG

Ystyried adroddiad llafar yr Aelod Cabinet – Y Gymraeg.

8. GOSODIADAU TAI CYMDEITHASOL

Derbyn adroddiad (ynghlwm) a chyflwyniad gan yr Uwch Reolwr Tai.

9. CYNLLUN IAITH CYNGOR GWYNEDD - ADRODDIAD MONITRO 2013-14

Ystyried adroddiad y Swyddog Cydraddoldeb ac Iaith (ynghlwm).

10. DIWEDDARIAD AR Y SAFONAU IAITH

Ystyried adroddiad y Swyddog Cydraddoldeb ac Iaith (ynghlwm).

11. RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR

Ystyried adroddiad y Swyddog Cydraddoldeb ac Iaith (ynghlwm).

12. YMGYRCH MYNYDDOEDD PAWB

Ystyried adroddiad y Swyddog Datblygu Iaith (ynghlwm)

13. ENWAU TAI

Ystyried adroddiad llafar y Swyddog Cydraddoldeb ac Iaith.

14. CWYNION IAITH

Ystyried adroddiad y Swyddog Cydraddoldeb ac Iaith (ynghlwm).

AGENDA

1. CHAIRMAN

To elect a Chairman for 2014/15.

2. VICE-CHAIRMAN

To elect a Vice-Chairman for 2014/15.

3. APOLOGIES

To receive apologies for absence.

4. DECLARATION OF PERSONAL INTEREST

To receive any declaration of personal interest.

5. URGENT BUSINESS

To note any items that are a matter of urgency in the view of the Chairman for consideration.

6. MINUTES

The Chairman shall propose that the minutes of the last meeting of this committee held on 4 April, 2014 be signed as a true record (attached).

7. REPORT OF THE CABINET MEMBER – THE WELSH LANGUAGE

To consider the verbal report of the Cabinet Member – The Welsh Language.

8. SOCIAL HOUSING ALLOCATIONS

To receive a report (attached) and presentation by the Senior Housing Manager.

9. GWYNEDD COUNCIL'S LANGUAGE SCHEME - MONITORING REPORT 2013-14

To consider the report of the Equality and Language Officer (attached).

10. UPDATE ON LANGUAGE STANDARDS

To consider the report of the Equality and Language Officer (attached).

11. THE COMMITTEE'S WORK PROGRAMME

To consider the report of the Equality and Language Officer (attached).

12. MYNYDDOEDD PAWB CAMPAIGN

To consider the report of the Language Development Officer (attached).

13. HOUSE NAMES

To consider the verbal report of the Equality and Language Officer.

14. LANGUAGE COMPLAINTS

To consider the report of the Equality and Language Officer (attached).

PWYLLGOR IAITH, 4.04.14

Yn bresennol: Y Cyngorydd Liz Saville Roberts (Cadeirydd).

Y Cyngorwyr: Craig ab Iago, Elwyn Edwards, Tom Ellis, Alan Jones Evans, Alwyn Gruffydd, Eric Merfyn Jones, Mair Rowlands, Gareth Thomas, Eirwyn Williams, Elfed Williams a Gruffydd Williams.

Swyddogion: Gwenno Williams (Uwch Reolwr Gweithredol, Adran Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai a Hamdden), Sion Huws (Rheolwr Cydymffurfiaeth ac Iaith), Gwenan Ellis Jones (Cydlynnydd Siarter Iaith), Bethan Roberts (Swyddog Gwella Ansawdd Addysg), Ruth Richards (Swyddog Cydraddoldeb ac Iaith) ac Eirian Roberts (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

Hefyd yn bresennol: Y Cyngorydd Ioan Thomas (Aelod Cabinet – Y Gymraeg).

Ymddiheuriadau: Y Cyngorwyr Gweno Glyn, Dyfrig Jones a Mandy Williams-Davies.

Estynnwyd croeso i'r Cyngorydd Eddie Dogan, oedd yn bresennol i arsylwi ar y cyfarfod, ynghyd â Rhys Parri, myfyriwr o Brifysgol Bangor, oedd ar brofiad gwaith gyda'r Cyngor.

1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

2. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod diwethaf o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 15fed Ionawr, 2014 fel rhai cywir, yn amodol ar nodi y penderfynwyd gofyn i'r Aelod Cabinet – Y Gymraeg roi adroddiad ymhob cyfarfod o'r Pwyllgor Iaith.

Materion yn codi o'r cofnodion

Eitem 2 – Mater Brys – Ymdrin â Phresgripsiwn Cymraeg

Dosbarthwyd - copïau o ohebiaeth rhwng yr Aelod Cabinet - Y Gymraeg a'r Bwrdd Iechyd a chwmi Morrisons yn dilyn digwyddiad yn fferyllfa Morrisons ym Mangor pryd y gwrthodwyd ymdrin â phresgripsiwn oherwydd ei fod wedi ei ysgrifennu yn Gymraeg.

Nododd yr Aelod Cabinet - Y Gymraeg, er nad oedd sylwadau cwmni Morrisons yn cydfynd â nifer o ffeithiau a glywodd gan eraill, bod rhaid derbyn y sylwadau hynny fel ffaith. Fodd bynnag, 'roedd o'r farn bod llythyr y Bwrdd Iechyd yn siarad gwag ac yn annealladwy a chredai y dylai fynd yn ôl at y Bwrdd Iechyd i holi pryd 'roedd nifer o'r pethau y cyfeirir atynt yn y ddau baragraff olaf yn mynd i ddigwydd. Ychwanegodd mai rôl y Comisiynydd Iaith oedd mynd ar ôl materion fel hyn ac 'roedd y Swyddog Cydraddoldeb ac Iaith wedi anfon copïau o ymatebion cwmni Morrisons a'r Bwrdd Iechyd ati, ond heb dderbyn ymateb hyd yma.

Mynegwyd pryder nad oedd staff yn cael eu monitro mewn sefyllfaoedd o'r fath a'u bod yn dueddol o wneud pethau o'u pen a'u pastwn eu hunain yn groes i reolau. Fel enghreifftiau eraill o hyn, cyfeiriwyd at y defnydd o holiadur uniaith Saesneg mewn meddygfa (nyrs yn gofyn y cwestiynau yn Gymraeg i'r claf ac yn cyfieithu'r ateb a'i roi i lawr yn Saesneg ar y ffurflen, er bod ffurflenni Cymraeg ar gael) a slipiau talu i mewn ar gael yn Saesneg yn

unig ar y cownteri mewn banciau. 'Roedd hyn yn dragwyddol yn frwydr ac yn gwbl annerbyniol.

PENDERFYNWYD rhoi hawl i'r Aelod Cabinet - Y Gymraeg ysgrifennu'n ôl at y Bwrdd Iechyd i holi ynglŷn ag amserlen y datblygiadau y cyfeirir atynt yn eu llythyr a bod y Swyddog Cydraddoldeb ac Iaith yn cysylltu ymhellach gyda'r Comisiynydd Iaith i ofyn am ddiweddariad.

Eitem 7 – Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2014-2017

Nodwyd nad oedd yn glir beth oedd arwyddocâd y frawddeg "*Dim ond mewn eithriadau prin iawn y rhoddir ystyriaeth i gefnogi cyrsiau fydd ar gael mewn un iaith yn unig*" (ail baragraff tudalen 6) a chytunodd y Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu i ofyn i'r adran am esboniad pellach.

5. DIWEDDARIAD CYNLLUN PENCAMPWYR IAITH A DEFNYDD O'R IAITH YNG NGHANOLFANNAU HAMDDEN BANGOR, TYWYN A DOLGELLAU

Cyflwynwyd – diweddariad llafar gan yr Uwch Reolwr Gweithredol, Adran Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai a Hamdden ar y Cynllun Pencampwyr Iaith a defnydd o'r iaith yng Nghanolffannau Hamdden Bangor, Tywyn a Dolgellau.

Nododd:-

- (1) Bod gan bob un o'r canolfannau hamdden reolwr sy'n Bencampwr Iaith.
- (2) Ers iddi adrodd ddiwethaf, fod y sefyllfa wedi gwella yng Nghanolffannau Bangor a Thywyn. 'Roedd 11 allan o'r 30 o staff ym Mangor yn mynychu gwersi ac yn ceisio siarad mwy o Gymraeg ac 'roedd mwy o Gymraeg yn cael ei siarad yng Nghanolffannau Tywyn hefyd, gyda'r rheolwr bellach yn gallu dilyn y drafodaeth drwy gyfrwng y Gymraeg mewn cyfarfodydd.
- (3) Bod problemau'n parhau yng Nghanolffannau Hamdden Dolgellau gyda rhai staff yn ddihyder, neu'n amharod, i ddefnyddio'r Gymraeg, er y ceisid dwyn perswâd arnynt i, o leiaf, gyfarch cwsmeriaid yn Gymraeg.
- (4) Bod pobl sy'n mynd ar gyrsiau'n llwyddo a chyfeiriwyd at ddwy enghraifft ddiweddar o hyn, sef Caroline Jackson, (Pwll Nofio Blaenau Ffestiniog) a enillodd Wobr Dysgwyr y Flwyddyn a Tracey Ann Linton (Frondeg, Caernarfon) a ddaeth yn ail.
- (5) Bod yr adran yn dwyn pwysau ar staff sy'n amharod i ddefnyddio'r Gymraeg a'r cam nesaf, o bosib, fyddai eu disgyblu gan eu bod yn torri'r polisi iaith.
- (6) Y gwelid llawer o werth i'r Cynllun Pencampwyr Iaith ac ystyrid sefydlu cynllun tebyg yng nghartrefi preswyl y sir.

Rhodddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau. Yn ystod y drafodaeth, amlygwyd y prif faterion a ganlyn:-

- (1) Awgrymwyd y dylid dosbarthu holiadur cwsmer yn yr holl ganolfannau hamdden er mwyn cael adborth gan y defnyddwyr.
- (2) Mewn ymateb i ymholiad, eglurodd yr Uwch Reolwr Gweithredol nad oedd y Gymraeg yn hanfodol ar gyfer y swyddi hyn, ond y gwneid pob ymdrech i benodi siaradwyr Cymraeg. 'Roedd mwyafrif y staff yn bobl leol oedd wedi derbyn eu haddysg yn ysgolion y sir trwy gyfrwng y Gymraeg, ond eto'n amharod i ddefnyddio'r iaith. Awgrymwyd y dylai'r Gymraeg fod yn hanfodol ar gyfer y swyddi hyn a bod angen edrych ar hynny. Dylai'r Cyngor hefyd fod yn glir beth yw ei ddisgwyliadau wrth benodi pobl.
- (3) Pwysleisiwyd bod modd newid agwedd pobl, nid yn unig yn y canolfannau hamdden, ond ar draws y Cyngor, ac awgrymwyd bod modd addasu'r Siarter Iaith i greu'r agwedd newydd yma ymysg staff.

- (4) Nododd y Cadeirydd y byddai yna adroddiad i'r cyfarfod nesaf ym Mehefin ar Fwy na Geiriau, sef atodiad i'r adroddiad Cynllun Iaith ar y defnydd o'r Gymraeg mewn cartrefi preswyl a thrwy'r gwasanaethau allanol yn ogystal. Croesawodd y bwriad i sefydlu Cynllun Pencampwyr Iaith yn y cartrefi preswyl a nododd fod camau disgyblu yn bwysig hefyd. Croesawodd y syniad o gael holiadur ac ychwanegodd fod angen edrych ar y polisi o ran hysbysebu swyddi. 'Roedd o'r farn y dylai'r Gymraeg fod yn hanfodol ar gyfer y mathau hyn o swyddi a dylid gwneud yn glir i bobl mewn cyfweiliadau beth yw disgwyliadau'r Cyngor o ran yr iaith.
- (5) Pwysleisiwyd y dylai pob aelod o staff y Cyngor fod yn bencampwr iaith a chael yr agwedd gywir o blaid y Gymraeg a rhoi blaenoriaeth i'r Gymraeg yn eu gwaith.
- (6) Nodwyd bod pobl ddi-gymraeg yn symud i mewn i dai cymunedol ac nad oedd diben cael cyngor Cymraeg a neb yn siarad yr iaith yn y byd y tu allan.

Gan gyfeirio at gŵyn (dan eitem 9 ar y rhaglen) ynglŷn â chyswllt cyntaf di-gymraeg ar bedwar achlysur gwahanol yng Nghanolfan Hamdden Dolgellau, nododd yr Uwch Reolwr Gweithredol y deallai fod y swyddog dan sylw wedi cael gwersi Cymraeg ddwy flynedd yn ôl a'i bod wedi'i hannog i fynd am ragor o wersi. 'Roedd yr adran hefyd yn edrych ar newid y ffordd o weithio yn y ganolfan ac wedi ystyried gwahanol opsiynau gyda'r Adran Adnoddau Dynol.

Nododd y Cadeirydd fod dyletswydd ar y Cyngor i fod yn gyflogwr parchus i'r staff a'u hanghenion, ond bod dyletswydd arno hefyd i ddarparu gwasanaeth dwyieithog i'r cyhoedd.

Diolchwyd i'r Uwch Reolwr Gweithredol am ei diweddariad.

6. CYNNYDD DISGYBLION YN Y CANOLFANNAU IAITH

Cyflwynwyd – adroddiad y Pennaeth Addysg ar gynnydd disgyblion yn y Canolfannau Iaith ynghyd â chyflwyniad gan y Cydlynnydd Siarter Iaith ar lefel llafaredd disgyblion, gan ddangos enghreifftiau o'r gwahanol lefelau, sydd yn ffrwyth gwaith Canolfannau Iaith Gwonedd, Môn a Chonwy.

Rhoddyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau. Yn ystod y drafodaeth, amlygwyd y prif faterion a ganlyn:-

- (1) Pwysleisiwyd bod y cynllun hwn yn un o lwyddiannau mawr y genedl ac 'roedd cynnydd anhygoel y plant mewn ychydig wythnosau yn dystiolaeth i frwdfrydedd ac ymrwymiad y staff i'r dasg ddiwedd hon.
- (2) Gofynnwyd am gofnodi'r ffaith bod rhwng 5,000 a 10,000 o blant wedi mynd drwy'r canolfannau iaith ers eu sefydlu yn 1984, gan fod hyn yn dangos pa mor wahanol fyddai'r sefyllfa wedi bod heb gyfraniad y canolfannau.
- (3) Pwysleisiwyd pwysigrwydd monitro'r plant ar ôl iddynt adael y ganolfan a dychwelyd i'w hysgolion. Mewn ymateb, cytunodd y Cydlynnydd Siarter Iaith fod y monitro yn greiddiol bwysig i barhad y gwaith da a manylodd ar y cynllun ôl-ofal ar gyfer athrawon.
- (4) Nodwyd pwysigrwydd tracio'r plant drwy gydol eu gyrfa yn yr ysgol er mwyn gweld beth yw eu cyrhaeddiad e.e. mewn TGAU Cymraeg a lefel A, a phwy sy'n gwneud pa gyfrwng TGAU a pha gyfrwng ôl 16.
- (5) Mewn ymateb i ymholiad, cadarnhaodd y Cydlynnydd Siarter Iaith fod yna gwrs cymhathu 5-6 wythnos ar gyfer rhieni, sy'n cyd-fynd â chwrs eu plant, a bod 15 rhiant wedi mynychu'r cwrs hyd yma eleni.
- (6) Mewn ymateb i ymholiad, eglurodd y Cydlynnydd Siarter Iaith yr argymhellid yn gryf iawn bod mewnfydwyr yn mynychu'r canolfannau iaith, neu fel arall, ni fyddai'n bosib iddynt oroesi mewn dosbarth prif lif.

- (7) Mewn ymateb i sylw bod gwybodaeth y Cyfrifiad yn mynd i gynnig gwaelodlin i'r gwaith, nododd y Cydlynnydd Siarter Iaith fod pob plentyn yng Ngwynedd wedi llenwi holiadur ar lein ar ei ddefnydd o'r iaith. Byddai canlyniadau'r arolwg yn cael eu cyhoeddi ar 28 Ebrill a Gwynedd fyddai'r cyngor cyntaf i wybod beth yr arferiad a defnydd iaith plant.
- (8) Nodwyd pob perygl i'r plant hyn gysylltu'r Gymraeg gydag ysgolion ac athrawon, yn hytrach na'r byd go iawn y tu allan i furiau'r ysgol.
- (9) Gofynnwyd i'r Aelod Cabinet – Y Gymraeg roi diweddariad i'r pwyllgor ar ddatblygiadau parthed y Strategaeth Iaith a'r Cyfrifiad.

Nododd y Cadeirydd y gallai'r Cyngor ymfalchïo yn llwyddiant ysgubol y cynllun hwn a diolchodd i'r Cydlynnydd Siarter Iaith am ei chyflwyniad manwl a diddorol.

7. YMCHWILIAD CRAFFU CAFFAEL CYNALIADWY

Cyflwynwyd – diweddariad ar lafar gan Gadeirydd y Grŵp Ymchwiliad Craffu Caffael Cynaliadwy, y Cynghorydd Mair Rowlands.

Ymhelaethodd ar gefndir yr ymchwiliad gan nodi fod adroddiad drafft terfynol yr ymchwiliad wedi'i gyflwyno i'r Aelod Cabinet Economi yn y Pwyllgor Craffu Corfforaethol ar 27 Mawrth. Eglurodd fod un o argymhellion yr ymchwiliad yn cyfeirio at safle'r Gymraeg, sef:-

“Dylid adolygu'r defnydd o'r Gymraeg o fewn trefniadau caffael yng nghyd-destun y ddogfen *Gosod contractau gwasanaethau cyhoeddus a'r iaith Gymraeg* a chynnwys unrhyw argymhellion yn y Strategaeth Caffael a'r Polisi Caffael Cynaliadwy newydd a datblygu trefniadau i fonitro cydymffurfiaeth.”

Nododd fod rôl i'r Pwyllgor Iaith sicrhau bod y sylw cywir yn cael ei roi o ran y safonau a gofynion iaith y Cyngor o fewn y maes yma a gallai'r grŵp ymchwil, fydd yn parhau mewn bodolaeth, edrych i mewn i'r maes a chadw golwg ar hyn hefyd.

Diolchwyd i Gadeirydd y Grŵp Ymchwiliad Craffu am ei gwaith trylwyr.

Holwyd pa ganran o gytundebau sy'n cydymffurfio â'r ddogfen. Cytunodd Cadeirydd y Grŵp Ymchwiliad Craffu i wneud ymholiadau.

Awgrymwyd anfon copi o'r ddogfen at Gartrefi Cymunedol Gwynedd.

8. YMCHWILIAD SAFONAU COMISIYNYDD Y GYMRAEG

Cyflwynwyd – adroddiad y Swyddog Cydraddoldeb ac Iaith yn manylu ar Ymchwiliad Safonau Comisiynydd y Gymraeg ac yn awgrymu cyfres o sylwadau y gellid eu nodi dan yr adran 'Sylwadau Pellach' o'r holiadur.

Croesawyd yr adroddiad yn fawr a chytunwyd â'r sylwadau awgrymedig.

PENDERFYNWYD nodi'r sylwadau isod dan yr adran 'Sylwadau Pellach' o'r holiadur:-

- Byddai'r Cyngor yn falch o dderbyn sicrwydd mai gofynion sylfaenol a gynrychiolir gan y Safonau, ac yn gofyn am gadarnhad o gefnogaeth y Comisiynydd i unrhyw sefydliad sydd am weithredu a datblygu tu hwnt i ofynion craidd y Safonau.
- Byddwn yn gofyn i'r Comisiynydd roi ystyriaeth i rôl Awdurdod fel Gwynedd

mewn perthynas â threfniadau partneriaethol, rhanbarthol ac unrhyw gyddarparu arall. Nod y Cyngor yw sicrhau nad yw trefniadau cyd-weithio'n arwain at unrhyw ddirywiad mewn darpariaeth ieithyddol. Unwaith eto, byddwn yn croesawu anogaeth i anelu'n uwch na'r Safonau, a'r gefnogaeth i barhau i ddylanwadu ar ddarpariaeth ein partneriaid.

- Nodir yn yr Holiadur i ni fethu a chyrraedd pob Safon, oherwydd methiant sefydliadau eraill. Bydd y Pwyllgor Iaith yn ymwybodol o sawl esiampl o hyn; y frwydr i gael Tystysgrifau Nofio a Ffurflenni Amlosgi Cymraeg er enghraifft.
- Gall rhai o'r Safonau Cadw Cofnod brofi'n broblemus. Gan mai Cymraeg yw'r iaith ddiofyn pan ddaw'r cyhoedd i gyswllt a ni, byddai'n anymarferol cyfri pob cysylltiad a wneir drwy gyfrwng y Gymraeg. Gan ein bod yn anelu at gydymffurfiaeth 100% o safbwynt cyswllt cyfrwng Cymraeg, mae'n anodd gweld sut byddai cofnod mor fanwl yn ychwanegu gwerth.

9. CWYNIION IAITH

Cyflwynwyd – adroddiad y Swyddog Cydraddoldeb ac iaith yn manylu ar y cwynion iaith diweddaraf i law yn ymwneud â'r Cyngor, partneriaid neu sefydliadau trydydd parti.

Nododd aelod fod ganddo gŵyn ynglŷn ag Ymddiriedolaeth Archeolegwyr Gwynedd a gofynnwyd iddo basio'r gŵyn honno ymlaen i'r Swyddog Cydraddoldeb ac iaith i'w thrafod yn y cyfarfod nesaf.

Gan gyfeirio at y gŵyn bod yr Adran Gynllunio'n defnyddio fersiwn Saesneg o gyfeiriad mewn gohebiaeth, nodwyd nad oedd yna fersiwn Saesneg o'r ffordd dan sylw yn bodoli. Nodwyd hefyd bod yr Adran Gynllunio wedi defnyddio Ffordd y Traeth am Lôn Gwydryn (*Beach Road*), Abersoch a Ffordd y Capel am Stryd Wesla (*Chapel Street*), Porthmadog.

Gan gyfeirio at y gŵyn ynglŷn ag iaith wallus mewn e-bost gan aelod o staff y Cyngor, pwysleiswyd ei bod yn bwysig bod gan swyddogion yr hyder i ddefnyddio'r Gymraeg, ac na ddylid eu beirniadu am ymdrechu i ohebu trwy gyfrwng y Gymraeg. I'r gwrthwyneb, nodwyd bod raid cynnal rhyw fath o safon hefyd.

PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.

Ar ddiwedd y cyfarfod, gofynnwyd am osod yr eitemau canlynol ar raglen waith y pwyllgor:-

- Sefyllfa'r Gymraeg wrth osod tai cymdeithasol;
- Cefnogaeth gan y Cyngor i fusnesau;
- Newid hen enwau tai.

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30am a daeth i ben am 11.55am.

PWYLLGOR	PWYLLGOR IAITH
DYDDIAD	26 Mehefin 2014
TEITL YR ADRODDIAD	Polisi Gosod Cyffredin a Dyraniad Tai Cymdeithasol
ARGYMHELLIAD	Er gwybodaeth
AWDUR	Uwch Reolwr Tai Arweinydd Tîm Opsiynau Tai

1.0 Cyflwyniad

Mae Cyngor Gwynedd, Cartrefi Cymunedol Gwynedd, Grŵp Cynefin a Thai Gogledd Cymru wedi mabwysiadu Polisi Gosod Tai Gyffredin sy'n cael ei oruchwylio gan Bartneriaeth Cofrestr Tai Gyffredin Gwynedd. Mae'r polisi gosod presennol yn weithredol ers mis Medi 2012 pan sefydlwyd y Tîm Opsiynau Tai ac wedi disodli 5 polisi gosod gwahanol oedd yn bodoli yn flaenorol. Pwrpas sefydlu'r polisi cyffredin oedd hwyluso trefniadau i ymgeiswyr drwy gael un cynllun dyrannu cyson a threfniadau cryfach o ran darparu gwybodaeth a chyngor mwy effeithiol ac amserol i ymgeiswyr. Arweiniodd at gael:

- un man cyswllt at un ffurflen gais i gael mynediad at dai cymdeithasol yng Ngwynedd
- un cynllun dyrannu gyffredin ar gyfer pob gosodiad yng Ngwynedd
- cyfle i ymgeiswyr wneud dewisiadau ar sail gwybodaeth am yr opsiynau tai sydd ar gael

2.0 Partneriaeth Cofrestr Tai Gyffredin Gwynedd

Mae pob cymdeithas dai sy'n rhan o'r bartneriaeth yn gymdeithasau diwydiannol a darbodus, gyda amcanion elusennol sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt ddarparu llety i bobl sydd angen cymorth gyda thai oherwydd caledi neu oherwydd anghenion yn ymwneud â'u hoedran neu wendid.

3.0 Polisi Gosod Tai Cyffredin Gwynedd

Mae'r polisi yn bodloni Rhan 6 o Ddeddf Tai 1996 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Ddigartrefedd 2002) ("y Ddeddf"), gan roi blaenoriaeth resymol i'r ymgeiswyr mwyaf anghenus. Cynllun yn seiliedig ar bwyntiau yn ôl angen ydyw, ac mae'n rhoi blaenoriaeth i ymgeiswyr yn y grwpiau blaenoriaeth resymol a blaenoriaeth ychwanegol i ymgeiswyr sydd â chysylltiadau lleol â Gwynedd a'i gymunedau.

Disgwylir i'r cymdeithasau tai dyrannu llety i'r ymgeisydd sydd â'r pwyntiau uchaf ar gyfer yr ardal y lleolir yr eiddo, y math o eiddo a'r un nifer o ystafelloedd gwely (yn ddarostyngedig i griteria maint teulu'r gymdeithas dai).

Mae'r polisi hefyd yn cynnwys darpariaeth ar gyfer :

- Cynllun Gosod Gwledig – mewn ardaloedd sy'n cael eu diffinio fel rhai gwledig a lle bo dau ymgeisydd gyda'r un sgôr pwyntiau caniateir dyrannu'r eiddo i'r ymgeisydd sydd gyda'r cysylltiad mwyaf â'r gymuned lle y lleolir yr eiddo
- Cynllun Gosod Adran 106 - cyfyngu gosod i ymgeiswyr heblaw bod ganddynt gysylltiad lleol o hyd penodol gyda'r gymuned lle y lleolir yr eiddo, a bod amod i'r perwyl hwnnw yn rhan o'r caniatâd cynllunio

- Cynllun Gosod Lleol – caniatáu i landlordiaid osod mewn ardal ddynodedig am gyfnod penodol o amser y tu allan i'r polisi er mwyn mynd i'r afael â materion rheolaeth tai
- Cynllun Gosod Sensitif – caniatáu i landlordiaid wneud ambell i osodiad y tu allan i'r Polisi er mwyn diogelu buddiannau tenantiaid presennol
- Cofrestr Tai Hygyrch – i gyfateb ymgeiswyr y mae eu teuluoedd yn cynnwys un neu fwy o bobl sydd ag anabledd, gyda thai sy'n addas ar gyfer eu hanghenion

3.1 Y Fframwaith Cyfreithiol

Mae Rhan 6 o'r Ddeddf yn nodi'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer dyrannu llety. Mae Cyngor Gwynedd yn cadw'r Gofrestr Tai Gyffredin ar ran y Bartneriaeth a bydd yn sicrhau ei bod yn cydymffurfio'n llawn gyda'r ddeddfwriaeth a'r rheoliadau. Mae Rhan 6 o'r Ddeddf yn gofyn am roi "blaenoriaeth resymol" i grwpiau penodol o ymgeiswyr, sef:

- pobl sy'n ddiartref (o fewn ystyr Rhan 7 o'r Ddeddf); mae hyn yn cynnwys pobl sy'n fwriadol ddiartref
- pobl y mae gan unrhyw awdurdod tai ddyletswydd ddiartrefedd tuag atynt o dan adran 190(2), 193(2) neu 195(2) o'r Ddeddf (neu o dan adran 65(2) o Ddeddf Tai 1985) neu sy'n preswyllo mewn llety a sicrhawyd gan unrhyw awdurdod tai o dan adran 192(3)
- pobl sy'n preswyllo mewn tai afiach neu orlawn neu yn byw mewn amodau tai anfodddhaol
- pobl sydd angen symud ar sail feddygol neu ar sail lles
- pobl sydd angen symud i leoliad penodol yn ardal yr awdurdod tai, pan fyddai methu â bodloni'r angen hwnnw yn creu caledi (iddynt hwy neu i eraill)

Mae Rhan 6 o'r Ddeddf yn dweud fod rhaid gosod tai yn unol â'r cynllun gosod. Rhaid hefyd cymryd ystyriaeth o Gôd Arweiniad Llywodraeth Cymru ar Osod Tai a Digartrefedd ("y Côt").

Caiff pob cais am eiddo ei asesu a dyfarnir pwyntiau ar sail anghenion tai. Dyfernir pwyntiau o dan y penawdau canlynol:

- Sicrwydd Deiliadaeth
- Amodau Tai
- Ar Sail Feddygol a Lles
- Ffactorau Cymdeithasol
- Ffactorau Rheoli Tai (tenantiaid presennol aelodau'r Bartneriaeth yn unig)
- Cysylltiad Lleol a Chymunedol

3.2 Cysylltiad Lleol â Gwynedd

Diffiniad y polisi o rywun sydd â chysylltiad lleol â Gwynedd yw person:

- Sy'n byw yng Ngwynedd
- Sydd ddim yn byw yng Ngwynedd ar hyn o bryd wedi byw yng Ngwynedd yn y gorffennol
- Sy'n byw y tu allan i Wunedd ar hyn o bryd ond mae naill ai'n darparu cymorth neu angen cymorth gan rywun sy'n byw yng Ngwynedd; neu
- wedi ei gyflogi'n barhaol yn ardal Gwynedd yn ystod y 12 mis diwethaf

Dyfarnir 3 pwynt am bob blwyddyn lawn o gysylltiad lleol hyd at uchafswm o **15 pwynt**.

3.3 Cysylltiad â Chymuned

Hefyd rhoddir blaenoriaeth i ymgeiswyr sydd naill ai yn byw neu wedi byw yn y gorffennol yn y gymuned lle y lleolir yr eiddo i'w osod. Dyfarnir 2 bwynt y flwyddyn hyd at uchafswm o **10 pwynt** ar ôl 5 mlynedd.

3.4 Iaith

Mae'r Côt yn datgan fod angen i lety cymdeithasol gyfarfod ag anghenion amrediad amrywiol o bobl. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn diffinio'r nodweddion hynny sydd wedi eu gwarchod gan gyfraith rhag pob math o wahaniaethu, gan gynnwys gwahaniaethu anuniongyrchol. Dyma'r nodweddion:

- Rhyw
- Hunaniaeth Rhyw
- Anabled
- Ethnigrwydd
- Cyfeiriadedd Rhywiol
- Crefydd neu Gred
- Oed
- Priodas a Phartneriaeth Sifil
- Beichiogrwydd a Mamolaeth

Er nad yw iaith yn y rhestr uchod, mae'n gysylltiedig ag ethnigrwydd ac felly ni ellir gwahaniaethu ar sail iaith.

3.5 Gosodiadau Diweddar

Mae'r Adran Dai wedi cwblhau dadansoddiad o osodiadau yn y cyfnod diweddar er mwyn adnabod patrwm gosodiadau yng Ngwynedd. Bydd y dadansoddiad yn cael ei gyflwyno ar ffurf cyflwyniad yn y cyfarfod.

4.0 Argymhelliad

Nodi a derbyn cynnwys yr adroddiad er gwybodaeth.

**CYNLLUN IAITH CYNGOR GWYNEDD
ADRODDIAD MONITRO 2013-14**

1. Rhagair

Dyma'r Adroddiad Blynyddol olaf y cyflwynir ar y ffurf yma ac sy'n ymateb i ddangosyddion a osodwyd gan Fwrdd yr iaith Gymraeg.

Wedi cyflawni Holiadur y Comisiynydd yn gynharach eleni, disgwyliwn ragor o arweiniad parthed y gofynion ddaw arnom yn sgil y Safonau Iaith. Edrychwn ymlaen at yr her yma ac at barhau i ddatblygu ein hymroddiad i rymuso'r iaith Gymraeg o fewn Gwynedd a thu hwnt.

2. Cydymffurfio a'r Cynllun iaith Gymraeg

Wrth ddisgwyl manylion ynglŷn â gofynion y Safonau iaith, bu Cyngor Gwynedd yn parhau gyda'n Cynllun iaith 2010-2013. O safbwynt Rhaglen Waith y Cynllun, gellir nodi fod amryw o'r Amcanion bellach yn weithredol, tra erys rhai fel gweithredoedd i'w datblygu ymhellach yng ngoleuni'r Safonau. Gellir crynhoi'r sefyllfa fel a ganlyn:

AMCAN	STATWS PRESENNOL	CAMAU AT Y DYFODOL
A.1. Byddwn yn prif-ffrydio'r Gymraeg i bolisiau, mentrau a phenderfyniadau allweddol y Cyngor drwy gryfhau a chadarnhau ein trefniadau prif-ffrydio themau llorweddol	Tref wedi'i sefydlu i asesu effaith posib ein penderfyniadau Cabinet ar yr iaith Gymraeg	Asesu'r angen am unrhyw newidiadau i'r drefn yn unol â gofynion y Safonau iaith
B.1. Bydd y Cyngor yn sicrhau ein bod yn cyfleu a monitro gofynion y Cynllun iaith fel rhan annatod o gyflwyno gwasananethau gan eraill a bod y gofynion yma'n amod ar gyfer cytundeb, grant neu nawdd a ddyrennir gan y Cyngor	Cyflwynir y manylion isod (4(A))	Datblygu'n unol a gofynion y Safonau iaith. Parhau i ddatblygu trefniadau monitro Gwasanaeth Cymdeithasol yn unol ag adolygiad y Ganolfan Cynllunio iaith
B.2. Sicrhau fod cytundebau cyd-ddarparu'n arwain at wasanaethau sy'n cyd-fynd a gofynion y Cynllun iaith	Parhau i sicrhau nad yw cytundebau cyd-ddarparu'n tanseilio ein hymrwymiad parthed yr iaith Gymraeg	Datblygu'n unol a gofynion y Safonau, gan barhau i bwysu ar gyrrff eraill edrych tu hwnt i isafswm y gofynion

AMCAN	STATWS PRESENNOL	CAMAU AT Y DYFODOL
B.3. Sicrhau fod Gwasanaethau Ieuenctid yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg	Gweler 3A) isod	Parhau i gyd-weithio a'r Gwasanaeth Ieuenctid i hyrwyddo'r iaith Gymraeg
C.1. Bydd y Cyngor yn sicrhau a cheisio gwella yr amrediad o wasananethau o safon drwy gyfrwng y Gymraeg	Wedi cyflwyno adroddiad yn flynyddol i Fwrdd yr iaith Gymraeg ac yn ddiweddarach, comisiynydd yr iaith Gymraeg	Monitro cydymffurfiaeth yn unol â gofynion y Safonau Iaith
C.2. Sicrhau (yn unol â DIG2) fod staff y brif dderbynfa, canolfan gyswllt neu siop-un-stop yn gallu cynnig gwasananeth dwyieithog	Gweler 4B) isod	Parhau i sicrhau staff dwyieithog yn Siop Gwynedd a'r Ganolfan Alw
C.3. Gwarantu safon cyfieithu ac iaith y Cyngor	Uned Gyfieithu o fewn y Cyngor- ar gael i gyfieithu a chywiro. CySill ar bob cyfrifiadur	Parhau i fonitro cwynion yn erbyn safon iaith
C.4. Hyrwyddo'r iaith Gymraeg drwy Dechnoleg Gwybodaeth	Strategaeth TG yn ymrwymo i gofnodi darpariaeth iaith Gymraeg fel dewis diofyn lle bo'n bosib ar bob cymhwysydd Windows sy'n bodoli'n ddwyieithog	Parhau gyda'r ymrwymiad a chydymffurfio a gofynion TG y Safonau Iaith
C.5. Sicrhau a hyrwyddo dewis iaith mewn cyfarfodydd	Sicrhau cyfarfodydd Cymraeg (mewnol a dwyieithog (cyhoeddus) ac annog staff i gyfrannu drwy gyfrwng y Gymraeg mewn cyfarfodydd allanol	Parhau gyda'r ymrwymiad, gan fonitro a gweithredu ar unrhyw gwynion
CH.1. Cydymffurfio a'r gofyn i gyflwyno hunaniaeth gorfforaethol sy'n gwbl ddwyieithog ac sy'n hyrwyddo'r iaith Gymraeg	Holl ddeunyddiau cyhoeddus y Cyngor yn ddwyieithog (arwyddion, papurau pennawd, ffurflenni, deunydd arddangos ayb.)	Parhau gyda'r ymrwymiad, gan fonitro a gweithredu ar unrhyw gwynion

AMCAN	STATWS PRESENNOL	CAMAU AT Y DYFODOL
CH.2. Sicrhau hyd eithaf ein gallu bod arwyddion ac enwau lleoedd o fewn y Sir yn adlewyrchu Cymreictod, hanes a diwylliant yr ardal	Yr amcan yn weithredol	Parhau i ddatblygu ein hymrwymiad i enwau ac arwyddion Cymraeg hyd eithaf ein gallu
D.1. Datblygu Strategaeth Sgiliau ieithyddol i staff yn seiliedig ar ganllawiau Recriwtio a'r Iaith Gymraeg Bwrdd yr Iaith	Parhau i sicrhau staff sy'n gallu'r Gymraeg yn unol â gofynion eu swyddi a'r ymrwymiad i weinyddiaeth fewnol cyfrwng Cymraeg	Datblygu'n unol a'n gofynion a gofynion y Safonau Iaith
D.2. Darparu hyfforddiant iaith Gymraeg i staff (DIG 4a)	Gweler adroddiad y Swyddog Datblygu Gweithlu (Atodiad 2)	Parhau i sicrhau cyfleoedd i ddysgu a gwella sgiliau ieithyddol staff
D.3. Sicrhau hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith i staff (DIG4b)	Hyfforddiant Ymwybyddiaeth iaith ar gael i staff ac Aelodau	Hyrwyddo'r hyfforddiant a datblygu modiwl e-ddysgu ar Ymwybyddiaeth iaith
D.4. Sicrhau fod staff yn ymwybodol o ofynion y Cynllun Iaith ac yn hyrwyddo'r iaith gyda hyder	Canllaw ar ofynion iaith i staff ac yn rhan o'r broses anwytho	Adolygu'r trefniadau yn unol â gofynion y Safonau Iaith
D.5. Sicrhau fod cwynion yn erbyn y Cynllun Iaith yn cael eu hymdrin â hwy yn unol â safonau corfforaethol y Cyngor	Gweler 3C) isod. Cwynion yn cael eu hadrodd i'r Pwyllgor Iaith yn ogystal	Parhau i adrodd cwynion i'r Pwyllgor Iaith a'r Comisiynydd yn unol â gofynion y Safonau

3) Ansawdd Gwasanaethau Rheng Flaen

A) Darpariaeth Gwasanaeth Ieuentid Cyfrwng Cymraeg

Mae'r Gwasanaeth Ieuentid yn cynnal eu holl weithgareddau drwy gyfrwng y Gymraeg ac/ neu'n ddwyieithog. Mae'n dyrannu grantiau yn flynyddol i'r Urdd a'r Ffermwyr Ifanc; sef dau fudiad sy'n cynnig gweithgareddau cyfrwng Cymraeg i bobl ifanc.

Yn ein Hadroddiadau Monitro blaenorol, cafwyd manylion y gwaith a gyflawnwyd drwy Hunaniaith i hyrwyddo'r iaith Gymraeg drwy'r Gwasanaeth Ieuentid. Lluniwyd nifer o weithgareddau er mwyn hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ymysg aelodau'r Clybiau, a gellir adrodd eto eleni ein bod yn parhau i ddefnyddio'r gweithgareddau a'r adnoddau yma yng Nghlybiau Ieuentid y Sir.

B) Siop Gwynedd

DIG 2 Nifer a % swyddi'r ganolfan gyswllt neu siop-un-stop a ddynodwyd yn rhai "Cymraeg hanfodol" ac a lenwyd gan staff dwyieithog:

Lleolir Prif Dderbynfeydd y Cyngor yn y Pencadlys, Penrallt (Caernarfon), Neuadd y Dref (Bangor), Siop Gwynedd, Ffordd y Cob (Pwllheli), Penarlâg (Dolgellau)

Nifer Staff	Siaradwyr Cymraeg (nifer a %)	Cymraeg Hanfodol (nifer a %)
15	15 (100%)	15 (100%)

Y Ganolfan Gyswllt ym Mhenrhyndeudraeth sy'n ymdrin ag ymholiadau ffon, a nodir isod y manylion ynglŷn â sgiliau ieithyddol y staff:

Canolfan Gyswllt Penrhyndeudraeth

Nifer Staff	Siaradwyr Cymraeg (nifer a %)	Cymraeg Hanfodol (nifer a %)
29	29 (100%)	29 (100%)

C) Canolfannau Hamdden: Cynllun Pencampwyr Iaith Canolfannau Hamdden y Fro Gymraeg

- (i) Mae gan bob un o'r canolfannau hamdden reolwr sy'n Bencampwr Iaith.
- (ii) Ers yr adroddiad diwethaf, nodir bod y sefyllfa wedi gwella yng Nghanolfannau Bangor a Thywyn. 'Roedd 11 allan o'r 30 o staff ym Mangor yn mynychu gwersi ac yn ceisio siarad mwy o Gymraeg ac adroddir bod fwy o Gymraeg yn cael ei siarad yng Nghanolfan Tywyn hefyd, gyda'r rheolwr bellach yn gallu dilyn y drafodaeth drwy gyfrwng y Gymraeg mewn cyfarfodydd.
- (iii) Mae problemau'n parhau yng Nghanolfan Hamdden Dolgellau gyda rhai staff yn ddihyder, neu'n amharod, i ddefnyddio'r Gymraeg, er y ceisid dwyn perswâd arnynt i, o leiaf, gyfarch cwsmeriaid yn Gymraeg.
- (iv) Ceir llwyddiant ymysg y sawl sy'n mynychu cyrsiau; gydag un aelod o staff yn ennill gwobr Dafydd Orwig
- (iv) Mae'r adran yn parhau i ddwyn pwysau ar staff sy'n amharod i ddefnyddio'r Gymraeg a rhoddir ystyriaeth i ddisgyblu dan rai amgylchiadau.
- (vi) Gwelir gwerth i'r Cynllun Pencampwyr Iaith ac mae'r Adran yn ystyried sefydlu cynllun tebyg yng nghartrefi preswyl y sir.

Ch) Cwynion yn Erbyn y Cynllun Iaith

DYDDIAD	CWYN	YMATEB
Ebrill 2013	Defnydd o'r enw 'Rhedyw Road' yn hytrach na 'Ffordd Rhedyw' ar y system yn dilyn ceisiadau cynllunio	Y Gwasanaeth yn dueddol o ddefnyddio beth mae'r ymgeisydd wedi ei gyflwyno. Pan ddaw achosion i'r amlwg, maent yn eu cywiro ac yn ychwanegu'r enw Cymraeg i'r basdata. Mae'r enw wedi ei wirio yn yr achos yma

DYDDIAD	CWYN	YMATEB
Awst 2013	Swyddogion Cynllunio yn cyflwyno eu hachos mewn apêl cynllunio drwy gyfrwng y Saesneg a'r ddogfennaeth a ddarparwyd ganddyn nhw hefyd yn uniaith Saesneg	<p>Cyflwynwyd yr apêl i'r Arolygaeth Gynllunio yn y Saesneg. Ystyrir apêl ar ffurf gwrandawriad yn gyfystyr a thribiwnlys neu wrandawriad cyfreithiol, ac yn y cyd-destun yma, credir fod Polisi Dwyieithrwydd Gerbron y Llysoedd a weithredir gan y Cyngor yn berthnasol. Mae'r Polisi yn datgan, "bydd Cyngor Gwynedd yn ymdrin ag achosion a gychwynnir gan neu yn erbyn unigolion...yn newis iaith yr unigolion hynny, boed yn Gymraeg neu Saesneg." Mae hefyd yn datgan y "bydd y sawl sy'n cynrychioli'r Cyngor yn cyflwyno'r achos ar lafar yn iaith yr achos". O ganlyniad, cynhaliwyd y gwrandawriad yn Saesneg gyda chyfieithydd ar y pryd yn bresennol.</p> <p>Bu i'r dogfennau ysgrifenedig gael eu darparu yn y Saesneg, gan mai Saesneg oedd dewis iaith yr asiant oedd yn cyflwyno'r apêl. O safbwynt dogfennau apêl, mae'r amserlen yn dynn, ac felly maent yn cael eu darparu yn gyntaf yn yr iaith mae'r apelydd wedi ei ddewis. Credir fod lle i wella trefniadau o safbwynt y ddogfennaeth er mwyn sicrhau fod dogfennau'r Cyngor fydd ar y ffeil apêl gyhoeddus yn ddwyieithog, gan dderbyn bod oblygiadau costau mewn perthynas â chyflawni hyn</p>

DYDDIAD	CWYN	YMATEB
Awst 2013	Cwyn gan Aelod ynglŷn ag adroddiad data gan y Gwasanaeth Trafnidiaeth a Stryd uniaith Saesneg; hwn yn rhydd i'w rannu i etholwyr, ond fersiwn Cymraeg ddim ar gael tan yn ddiweddarach	Paratowyd yr adroddiad dechreuol yn Saesneg gyda fersiwn Gymraeg ar gael yn ddiweddarach. Cylchredwyd y fersiwn Saesneg cyn yr un Gymraeg i'r aelod mewn ymgais i hwyluso trafodaeth ar faterion oedd o gryn ddiddordeb yn lleol. Mae'r Adran yn cydnabod bod y gwaith o gyfieithu a chylchredeg y fersiwn Gymraeg wedi cymryd mwy o amser nag a ddylai yn yr achos yma. Bu'r gwyn yn ysgogiad i'r Adran i sicrhau bod y fersiwn Gymraeg wedi ei chylchredeg ac i atgoffa swyddogion o'r angen i geisio cael fersiynau Cymraeg a Saesneg yn barod ar yr un pryd.
Awst 2013	Cais gan yr Adran Economi a Chymuned i newid defnydd adeilad wedi'i wneud drwy gyfrwng y Saesneg yn unig	Ymddengys y rhoddwyd y cais i mewn gan bensaer oedd yn gweithio i'r Cyngor heb ei basio i'r Adran yn gyntaf. Noder fod amserlen y cais yn dynn iawn yn ogystal. Dywed yr Adran eu bod bellach wedi cyflwyno copi Cymraeg o'r cais, a'u bod yn hyderus mai eithriad bu'r achos yma.
Medi 2013	Cwyn ynglŷn â safon ieithyddol e-bost gan y Cyngor ynglŷn â'r Gofrestr Etholwyr	Yr Adran yn anfon ymddiheuriad a fersiwn diwygiedig
Hydref 2013	Cwyn ynglŷn â gohebiaeth cofrestru etholwyr, gyda'r fersiwn Saesneg fwyaf amlwg wrth ei dynnu o'r amlen	Yr Uned wedi ymateb i'r gwyn ac yn cysylltu â'r cwynydd

DYDDIAD	CWYN	YMATEB
Tachwedd 2013	Cwyn ynglŷn â ffurflenni trwydded tafarn ond ar gael yn y Saesneg- cais gan y Comisiynydd Iaith am esboniad o'r sefyllfa	Cysylltu â'r Uned berthnasol, a derbyn esboniad nad oes fersiwn Cymraeg cyfredol ar gael. Yr Uned eisoes wedi codi hyn gyda'r Llywodraeth. Cyfeiriwyd y mater yn ôl at y Comisiynydd Iaith am arweiniad pellach.
Tachwedd 2013	Derbyn sylwadau gan Fenter Iaith Dyffryn Ogwen yn datgan pryder ynglŷn â materion cynllunio a'r iaith Gymraeg ac yn gofyn i'r Cyngor gasglu gwybodaeth a llunio strategaethau cynllunio cymunedol ar gyfer wardiau'r sir	Yr Adran Reoleiddio'n ymateb gydag amlinelliad o'r fframwaith statudol. Gwahodd sylwadau ffurfiol gan y Fenter Iaith fel rhan o'r ymgynghoriad cyhoeddus ar gyfer Cynllun Drafft Adnewo fel rhan o broses y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd.
Tachwedd 2013	Cwyn ynglŷn â'r defnydd o 'Gaul Street' mewn Adroddiad Archwilio Llifogydd	Atgoffa'r Adran berthnasol mai fersiynau Cymraeg enwau strydoedd a ddefnyddir gan y Cyngor
Tachwedd 2013	Cwyn ynglŷn â'r gwersi cerdd a ddarparir drwy ysgolion- nad yw safon Cymraeg rhai tiwtoriaid yn ddigonol i sicrhau gwersi drwy gyfrwng yr iaith	Yr Adran yn ymateb, gan gydnabod ei bod yn anodd recriwtio arbenigwyr cerdd cwbl rugl, ond yn pwysleisio'r gefnogaeth iaith a gynigir, ynghyd a hyfforddiant ar dermau cerddorol.
Mawrth 2014	Cwyn ynglŷn ag iaith wallus mewn e-bost yn arwain at alw i'r Swyddog fynychu Cwrs Gloywi Iaith	Cyswllt a'r Rheolwr Llinell yn amlygu nad yw anfon negeseuon swyddogol yn rhan o waith arferol y Swyddog dan sylw. Gwnaeth hyn mewn ymateb i bwysau ar weddill Adran. Cytunwyd fod sgiliau iaith yr unigolyn yn addas i ddyletswyddau'r gwaith ac i gynnal y Gymraeg fel iaith fewnol

O safbwynt cwynion yn erbyn Cynllun Iaith y Cyngor, gellir crynhoi tabl i) uchod fel a ganlyn, yn unol â dangosydd Bwrdd yr Iaith Gymraeg

iii) DIG 6

Nifer Cwynion	% a ymdriniwyd â hwy	Ymdrîn yn ôl safonau corfforaethol
11	100%	100%

4. Rheolaeth a Gweinyddiad y Cynllun

A) Trefniadau Trydydd Parti

i) Contractau Gofal Cymdeithasol

Yn ystod 2013, comisiynwyd Y Ganolfan Cynllunio Iaith i gynnal arolwg o ofynion ac ymarfer Cyngor Gwynedd wrth ddarparu gwasanaethau Cartrefi Gofal (Preswyl a Nyrsio), a Gofal Cartref er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i arddel y safonau gorau posib mewn perthynas â iaith.

Dros y flwyddyn, mae'r Adran Gwasanaethau Cymdeithasol wedi bod yn ymateb i argymhellion yr arolwg, gan osod gofynion uwch a mwy penodol. Mae'r drefn monitro'n adnabod a chyfarch unrhyw bryderon, gan lunio cynllun gwella. Gall hyn gynnwys:

- Hyfforddiant ieithyddol rhad ac am ddim trwy Bartneriaeth Gweithlu Gwynedd
- Anogaeth a tharged i recriwtio staff dwyieithog o fewn amserlen benodedig
- Sicrhau bod staff sy'n gallu'r Gymraeg ar bob shifft mewn cartref gofal
- Nodi anghenion iaith defnyddwyr ar gynlluniau gofal er mwyn sicrhau gweithwyr gofal cartref addas
- Codi ymwybyddiaeth ieithyddol darparwyr a'u hymwybyddiaeth o adroddiad Y Ganolfan Cynllunio Iaith
- Cryfhau cymalau ieithyddol o fewn ein cytundebau'n unol ag argymhellion Y Ganolfan Cynllunio Iaith.

Dan y drefn newydd, sefydlwyd gwaelodlin mewn perthynas â gofal preswyl a chartref, gyda bas data i fonitro cydymffurfiaeth iaith.

Mewn ymateb i ofynion "Mwy Na Geiriau", sefydlwyd Grŵp Tasg i fonitro ein cynnydd yn erbyn y disgwyliadau: Bydd y Grŵp yn craffu cydymffurfiaeth darparwyr trydydd parti yn y maes Gwasanaethau Cymdeithasol a'r data monitro ddaw o'r bas data newydd.

Gan ein bod wedi adolygu a chryfhau ein trefniadau, gwelwn fod y ffigyrau a gasglwyd hyd yma ar % cydymffurfio fod yn is na'r gorffennol. Hyderwn fodd bynnag y bydd hyn yn rhoi darlun gwell o'r gwir sefyllfa ac yn adnabod meysydd penodol ar gyfer gwella. Lle ceir diffyg cydymffurfiaeth, bydd yr Adran yn gweithio i sicrhau gwelliant ac yn parhau i fonitro ac adrodd ar y sefyllfa.

Mudiadau Gwirfoddol

Nifer	% wedi'u monitro	% yn cydymffurfio	% ddim yn cydymffurfio
22	60%	75%	25%

Sylwadau:

Polisi iaith ddim yn ddigon cynhwysfawr

Polisi iaith ddim ar gael yn y ddwy iaith

Peth o wybodaeth i'r cyhoedd ddim ar gael yn ddwyieithog

Darparwyr Gofal Cymunedol

Nifer	% wedi'u monitro	% yn cydymffurfio	% ddim yn cydymffurfio
10	100%	60%	40%

Sylwadau:

Llai na 50% o staff yn siarad Cymraeg

Angen sicrhau for pob cleient yn derbyn gwasanaeth yn unol ag anghenion iaith

Peth o wybodaeth ar gael i staff ddim yn ddwyieithog

Cartrefi Annibynnol

Nifer	% wedi'u monitro	% yn cydymffurfio
26	65%	Rhwng 90-100% 29.5% Rhwng 50-90% 41% Rhwng 0-50% 29.5%

Sylwadau:

Cydymffurfiaieth yn is mewn Cartrefi Nyrsio

Mwy o nyrsys yn tueddu i fod yn ddi-Gymraeg (dod a chydymffurfiaeth y cartref i lawr)

Cydymffurfiaieth yn is mewn rhai ardaloedd

Cartrefi ddim yn nodi'r niferoedd sy'n dysgu Cymraeg

Gweler yn ogystal gopi o'n adroddiad ar ymateb Cyngor Gwynedd i Fframwaith Strategol Mwy Na Geiriau yn Atodiad 1.

i)a iii) Contractau sy'n darparu ar gyfer pobl ifanc a chontractau ar gyfer darpariaeth cyn oed ysgol

Drwy Bartneriaeth Gwynedd a Môn, mae Cyngor Gwynedd wedi comisiynu pedwar Pecyn Strategol (LOT 1-4) ar gyfer gweithredu Cynllun 'Teuluoedd yn Gyntaf Gwynedd 2013- 2017' yn ogystal ag ariannu Tîm Gyda'n Gilydd a phe cyn ar gyfer 'Hyrwyddo Llais Rhieni, Plant a Phobl Ifanc'.

Pecynnau Strategol Teuluoedd yn Gyntaf Gwynedd
(Darparu gwasanaeth ar gyfer plant, pobl ifanc a theuluoedd)

LOT	DARPARWR ARWEINIOL	DARPARWYR CEFNOGOL
Lot 1 – Cefnogi Teuluoedd Gwynedd drwy hyrwyddo rhiantu cadarnhaol a chryfhau gwydnwch teulu	Caban Bach Barnardos	Uned Blynyddoedd Cynnar, Cyngor Gwynedd Derwen GISDA Cartref Bontnewydd YJS Gwynedd a Môn NYAS Gweithredu Dros Blant
Lot 2 – Cefnogi Teuluoedd Gwynedd drwy hyrwyddo gwybodaeth a llythrennedd ariannol a chynorthwyo rhieni i mewn i waith	CAB Gwynedd	Gwasanaeth Llyfrgelloedd Cyngor Gwynedd GISDA Barnardos, Caban Bach
Lot 3 - Cefnogi Teuluoedd Gwynedd drwy gyfleoedd chwarae, chwaraeon a hamdden egnïol	Uned Blynyddoedd Cynnar, Cyngor Gwynedd	Derwen
Lot 4 – Cefnogi Teuluoedd Gwynedd drwy'r blynyddoedd cynnar	Uned Blynyddoedd Cynnar (Cyngor Gwynedd)	BCUHB Barnardos, Caban Bach
Teuluoedd yn Gyntaf - Tîm Gyda'n Gilydd a datblygu gweithlu	Tîm Gyda'n Gilydd, Cyngor Gwynedd	

Hyrwyddo Llais Rhieni, Plant a Phobl Ifanc	Cartref Bontnewydd a Phrifysgol Bangor	Cartref Bontnewydd a Phrifysgol Bangor
--	--	--

Mae'r cynlluniau hyn i gyd wedi eu monitro ac mae 100% yn cydymffurfio a gofynion Cynllun Iaith.

Noder yn ogystal, fod gwaith yn parhau i gryfhau'r trefniadau ieithyddol rhwng Derwen a'r Bwrdd Iechyd. Adolygwyd y Canllawiau Iaith ar sail sylwadau'r Comisiynydd Iaith ac anghenion y tîm, a bydd y ddau gorff yn trafod dulliau ar gyfer monitro gweithrediad y canllawiau.

5. Digonolrwydd Sgiliau Iaith Gymraeg

A) Hyfforddiant Iaith ac Ymwybyddiaeth Iaith

Hyfforddiant yn y Gymraeg

Gweler adroddiad y Swyddog Datblygu Gweithlu (Atodiad 2)

Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Iaith

Mae Hyfforddiant Ymwybyddiaeth iaith ar gael drwy Uned Hyfforddiant gwasanaethau Cymdeithasol ac yn gorfforaethol. Eleni, cyflwynwyd Hyfforddiant Ymwybyddiaeth iaith i Aelodau'n ogystal.

Y brif her, fel y nodwyd mewn Adroddiadau blaenorol yw hyrwyddo'r cyrsiau. At y dyfodol, byddwn yn edrych ar gael hyfforddiant ar-lein fel rhan o'r prosiect e-ddysgu. Bydd Ymwybyddiaeth iaith hefyd yn cael ei gyflwyno i staff gwasanaethau Cymdeithasol sy'n derbyn hyfforddiant iaith.

B) Sgiliau Ieithyddol Staff

Mae'r niferoedd isod yn seiliedig ar ymatebion Penaethiaid Adran. Gan fod y mwyafrif helaeth o staff y Cyngor yn gallu siarad Cymraeg, gofynnwyd iddynt nodi faint o staff sy'n Ddi-Gymraeg.

GWASANAETH	UNED	ARDAL	NIFER	NIFER DDIM YN SIARAD CYMRAEG
Addysg	Adnoddau	Arfon	1	0
	Anghenion Arbennig	Arfon Dwyfor Anhysbys	10 1 12	0 0 0
	Consortiwm Addysg	Arfon	3	0
	Cyflogau a Chontractau Ysgolion	Arfon	5	0
	Cymorth i Fyfyrrwyr	Arfon	2	0
	Disgyblion a Chynhwysiad	Arfon Dwyfor Meirion Anhysbys	10 1 3 25	0 0 0 0
	Lles	Arfon Dwyfor Meirion Anhysbys	4 1 3 3	0 0 0 0
	Mynediad Adeiladau ac Arlwyo	Arfon Dwyfor Anhysbys	4 1 1	0 0 0
	Swyddfeydd Ardal Addysg	Arfon Dwyfor Anhysbys	1 9 1	0 0 0
	Trefniadaeth Ysgolion	Arfon Meirion	6 1	0 0
	Uned Reoli	Arfon	2	0
	Ysgolion	Arfon Dwyfor Meirion Anhysbys	1,371 475 695 421	0 0 0 0
Addysg Cyfanswm			3,072	0 (100% yn siarad Cymraeg)

GWASANAETH	UNED	ARDAL	NIFER	NIFER DDIM YN SIARAD CYMRAEG
Adnoddau Dynol	Adnoddau Dynol a Datblygu'r Gyfundrefn	Arfon Anhysbys	5 1	0 0
	Cefnogol	Arfon	32	0
	Dysgu a Datblygu	Arfon Anhysbys	15 1	0 0
	Iechyd a Diogelwch	Arfon Anhysbys	10 5	0 0
	Personél	Arfon Anhysbys	17 1	0 0
	Uned Rheoli	Arfon	4	0
Adnoddau Dynol Cyfanswm			91	0 (100% yn siarad Cymraeg)

GWASANAETH	UNED	ARDAL	NIFER	NIFER DDIM YN SIARAD CYMRAEG
Gofal Cwsmer	Cyfathrebu	Arfon	5	0
	Cynllunio Argyfwng	Arfon	3	0
	Cyswllt Cwsmer	Arfon Dwyfor Meirion Anhysbys	13 5 28 3	0 0 0 0
	Eiddo	Arfon Anhysbys	23 1	0 0
	Gwybodaeth	Arfon	3	0
	Llyfrgelloedd	Arfon Dwyfor Meirion Anhysbys	38 9 18 10	0 0 0 0
	Technoleg Gwybodaeth	Arfon	46	1
	Uned Reoli	Arfon	2	0
Gofal Cwsmer Cyfanswm			207	1 (99.5% yn siarad Cymraeg)

GWASANAETH	UNED	ARDAL	NIFER	NIFER DDIM YN SIARAD CYMRAEG
Priffyrdd a Bwrdeistrefol	Comisiynu	Arfon	21	0
		Dwyfor	13	0
		Meirion	19	0
		Anhysbys	19	0
	Fflyd	Arfon	10	0
		Dwyfor	11	0
		Meirion	8	0
		Anhysbys	6	0
	Gwaith Bwrdeistrefol	Arfon	104	0
		Dwyfor	71	0
		Meirion	79	0
		Anhysbys	75	0
	Gwaith Priffyrdd	Môn	2	0
		Arfon	29	0
		Dwyfor	21	0
		Meirion	38	0
		Anhysbys	30	0
	Trin Gwastraff	Arfon	2	0
		Meirion	10	1
		Anhysbys	5	0
	Uned Rheoli	Arfon	3	0
		Anhysbys	1	0
Priffyrdd a Bwrdeistrefol Cyfanswm			577	1 (99.8% yn siarad Cymraeg)

GWASANAETH	UNED	ARDAL	NIFER	NIFER DDIM YN SIARAD CYMRAEG
Rheoleiddio	Amgylcheddol	Arfon Dwyfor Meirion Anhysbys	30 5 5 1	0 0 0 0
	Bwyd Iechyd a Diogelwch	Arfon Dwyfor Meirion Anhysbys	9 4 3 1	0.4fte 0 0 0
	Canol Gwarchod y Cyhoedd	Arfon Dwyfor Meirion Anhysbys	4 1 2 1	0 0 0 0
	Cynllunio	Arfon Dwyfor Meirion	1 20 2	0 0 0
	Llygredd a Difa Pla	Arfon Dwyfor Meirion	5 5 3	0 0 0
	Safonau Masnach	Arfon Dwyfor Meirion Anhysbys	9 3 9 1	0 0 0 0
	Trafnidiaeth a Gofal Stryd	Arfon Dwyfor Anhysbys	56 3 24	0 0 14
	Trwyddedu	Arfon Dwyfor Meirion	2 1 1	0 0 0
	Uned Rheoli	Arfon	2	0
Rheoleiddio Cyfanswm			213	14.4 (93.2% yn siarad Cymraeg)

GWASANAETH	UNED	ARDAL	NIFER	NIFER DDIM YN SIARAD CYMRAEG
Ymgynghoriaeth	Ffyrdd a Pheirianeg	Arfon Meirion Dwyfor	49 6 6	8 2 1
	Adeiladu ac Amgylcheddol	Arfon Meirion Dwyfor	37 14 8	1 0 0
	Uned Busnes	Arfon Meirion Dwyfor	8 0 1	1 0 0
	Uned Reoli	Arfon Meirion Dwyfor	3 0 0	0 0 0
Ymgynghoriaeth Cyfanswm			132	13 (90.2% yn siarad Cymraeg)

GWASANAETH	UNED	ARDAL	NIFER	NIFER DDIM YN SIARAD CYMRAEG
Democratiaeth a Chyfreithiol	Cyfreithiol		15	0
	Cofrestru	Arfon Dwyfor Meirion Anhysbys	17 3 6 2	0 0 0 0
	Cydymffurfio ac laith	Arfon	11	0
	Uned Rheoli	Arfon	2	0
Democratiaeth a Chyfreithiol Cyfanswm			56	0 (100% yn siarad Cymraeg)

Gwasanaeth	Uned	Ardal	Nifer	Nifer ddim yn siarad Cymraeg

Strategol a Gwella	Uned Rheoli	Arfon	5	0
	Cynllunio Strategol	Arfon	18	1
	Rhaglenni	Arfon	8	0
	Gwasanaeth Democrataidd	Arfon	16	0
	Partneriaethau Môn a Gwynedd	Arfon/Môn	21	1
	Gwella Perfformiad ac Effeithlonrwydd	Arfon	9	0
	Cefnogi Newid	Arfon	1	0
	Prosiectau	Arfon	15	0
Strategol a Gwella Cyfanswm			92	2 (97.8% yn siarad Cymraeg)

GWASANAETH	UNED	ARDAL	NIFER	NIFER DDIM YN SIARAD CYMRAEG
Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai a Hamdden	Canolfannau Hamdden	Arfon Dwyfor Meirion	124 65 70	13 0 5
	Rheolaeth Tai	Arfon Dwyfor	3 1	0 0
	Cefnogi Pobl	Arfon	3	0
	Digartrefedd a Tai Cefnogol	Arfon Dwyfor Meirion TOT Arfon Hosteli	10 4 4 7 7	1 0 0 0 2
	Tai Sector Breifat	Arfon Meirion Dwyfor	7 10 8	0 0 1
			323	22 (93.2% yn siarad Cymraeg)

D.S. Disgwylir fwy o ffigyrau o Wasanaethau Cymdeithasol fod ar gael erbyn y cyfarfod

GWASANAETH	UNED	ARDAL	NIFER	NIFER DDIM YN SIARAD CYMRAEG
-------------------	-------------	--------------	--------------	-------------------------------------

Cyllid	Archwilio Mewnol	Arfon	12	0
	Atal Twyll Budd Dal	Arfon	4	0
	Buddsoddi a Rheolaeth Trysorlys	Arfon	3	0
	Cyflogau	Arfon	11	0
	Cyfrifeg	Arfon	46	0
	Pensiynau	Arfon	15	
	Refeniw- Incwm/ Arianwyr	Arfon	11	0
	Taliadau/ Credydwyr	Arfon	8	0
	Refeniw- Trethi a Budd Dal	Arfon Dwyfor Meirion	36 17 11	0 0 2
	Rheolaeth Risg/ Yswiriant	Arfon	2	0
	Uned Reoli	Arfon	2	0
Cyllid Cyfanswm			178	2 (98.9% yn siarad Cymraeg)

GWASANAETH	UNED	ARDAL	NIFER	NIFER DDIM YN SIARAD CYMRAEG
-------------------	-------------	--------------	--------------	-------------------------------------

Economi a Chymuned	Adfywio Cymunedol	Anhysbys	4 2 2	0 0 0
	Amgueddfeydd	Arfon Dwyfor Anhysbys	6 3 1	0 0 0
	Archifau	Arfon Meirion	9 3	0 0
	Cefnogi Busnes	Arfon	9	0
	Celfyddydau	Arfon Anhysbys	1 1	0 0
	Celfyddydau Perfformio	Dwyfor Meirion	17 7	1 (wrth gefn)
	Ewrop	Arfon	1	0
	Ieuenctid	Arfon Dwyfor Meirion Llawn-amser	60 25 39 17	0 0 8 0
	Morwrol	Dwyfor Meirion Anhysbys	16 2 0	0 1 0
	Orielau	Arfon Anhysbys	1 1	1 rhan-amser 0
	Parciau Gwledig	Arfon	6	0
	Prosiectau Sylweddol	Arfon Anhysbys	5 3	0 0
	Sgiliau a Mentergarwch	Arfon Dwyfor Meirion	5 1 2	0 0 0
	Strategaeth a Datblygu	Arfon	4	0
GWASANAETH	UNED	ARDAL	NIFER	NIFER DDIM YN SIARAD CYMRAEG

	Twristiaeth, Marchnata a Gofal Cwsmer	Arfon Dwyfor Meirion Anhysbys	13 3 4 12	0 0 0 0
	Uned Reoli	Arfon	3	0
Economi a Chymuned Cyfanswm			288	2 (92.4% yn siarad Cymraeg)

6. Prif-Ffrydio'r Gymraeg

A) Prif-Ffrydio (Strwythurau a Chyfrifoldebau)

Mae'r Cyngor yn sicrhau lle amlwg i'r Gymraeg o fewn ein trefniadau asesu effaith cydraddoldeb statudol. Mae ein dogfennaeth Cabinet yn nodi'n glir yr angen i ystyried angen asesiad o'r math ac mae'r Swyddog Cydraddoldeb ac iaith yn craffu rhaglen waith y Cabinet er mwyn tynnu sylw at y gofynion mewn perthynas ag unrhyw adroddiadau sy'n cael eu paratoi. Byddwn yn edrych ar ein trefniadau yng ngoleuni'r Safonau ac yn eu haddasu yn unol â'r angen.

B) Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg

Cyngor Gwynedd yw corff arweiniol a sefydliad llelyol Hunaniaith. Partneriaeth amlasiantaethol yw Hunaniaith a ddaeth ynghyd i weithredu prosiectau a gosod cyfeiriad strategol ar gyfer hyrwyddo'r Gymraeg yng Ngwynedd. Mae strwythur gweithredu Hunaniaith fel a ganlyn:

Grŵp Cyfeiriad Strategol
Grŵp Gweithleoedd a Gwasanaethau Dwyieithog
Gweithgor Dylanwadu ar Ddefnydd Cymdeithasol Plant o'r Gymraeg

Bu 5 swyddog yn gyfrifol am gydlynu, gosod cyfeiriad a gweithredu rhaglen waith Hunaniaith yn ystod 2013-14, sef:

- Swyddog Hyrwyddo iaith (a gyflogir yn uniongyrchol gan y Cyngor). Dyletswyddau goruchwylio yn unig berthynai i'r swydd hon rhwng Mehefin 2013 a Medi 2014 tra bydd deilydd y swydd ar secondiad;
- Swyddog Datblygu Iaith Gwynedd x 3, cyflogir un o'r swyddi drwy grant gan Is-adran y Gymraeg, Llywodraeth Cymru ar ddwy arall drwy gyfuniad o arian Cynllun Strategol Cyngor Gwynedd a'r cyllid sy'n arfer cyflogi'r Swyddog Hyrwyddo iaith.
- Cydlynnydd Siarter Iaith Ysgolion Cynradd Gwynedd, swydd a gyllidir ar y cyd rhwng Cyngor Gwynedd a grant gan Is-adran y Gymraeg, Llywodraeth Cymru.

Comisiynodd Hunaniaith ymgynghorydd i baratoi Strategaeth Iaith i Wynedd ar gyfer y cyfnod 2014-17 ynghyd a Chynllun Gweithredu .

Mae Hunaniaith yn gweithredu nifer o brosiectau drwy Adrannau'r Cyngor gan fanteisio ar gyfleoedd i hyrwyddo'r Gymraeg a chynllunio ieithyddol y tu hwnt i ofnion statudol, megis:

- Cydlynu gweithrediad Siarter Iaith Gymraeg Ysgolion Cynradd Gwynedd yn 98 ysgol gynradd y Sir;
- Adnabod gwaelodlin defnydd o'r Gymraeg ymysg disgyblion 14 ysgol uwchradd Gwynedd;
- Ymchwilio i'r ffactorau sydd yn dylanwadu ar y Gymraeg mewn cymunedau penodol yn sgil cyhoeddi canlyniadau Cyfrifiad 2011;
- Sicrhau cyfle i gynllunwyr iaith mewn cymunedau gwrdd â Swyddogion Polisi Cynllun Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd - Gwynedd a Môn.

Mae Hunaniaith yn gweithredu'n gymunedol er mwyn meithrin agweddau cadarnhaol, cynyddu statws a hyder pobl i ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol gyd-destunau. Bu pwyslais ar weithio yn y cymunedau ble u gostyngiad arwyddocaol yng nghanrannau siaradwyr Cymraeg yn sgil cyfrifiad 2011:

- Cynhaliwyd diwrnodau o weithgareddau i deuluoedd â phlant ifanc i hyrwyddo'r Gymraeg fel iaith i'w throsglwyddo i blant ac i'w defnyddio yn y teulu
- Hwyluswyd proses o fapio sefyllfa'r Gymraeg a chynllunio ei ffyniant mewn cymunedau sy'n dangos gostyngiad yng nghanrannau siaradwyr Cymraeg;
- Hyrwyddwyd ymwybyddiaeth a balchder yn y Gymraeg drwy gyfrwng gweithdai pêl droed;
- Cydweithiwyd gyda choleg addysg bellach ac asiantaeth Sgiliaith i greu modiwl ar-lein sy'n hyrwyddo'r Gymraeg fel sgil ac fel cyfrwng dysgu ymysg myfyrwyr galwedigaethol;

Mae Hunaniaith hefyd yn cydweithio gyda Swyddogion Iaith nifer o gyrff cyhoeddus sydd yn gwasanaethu yng Ngwynedd. Yn 2013/14, bu i Hunaniaith weithredu'r prosiect canlynol ar y cyd â hwy:

- Academi Datblygu Sgiliau Cymraeg i Reolwyr

Mae'r Gymraeg yn parhau i fod yn flaenoriaeth o fewn i Gynllun Strategol Cyngor Gwynedd 2013 - 2017 a hunaniaith yw'r cerbyd ar gyfer gweithredu nifer o'r blaenoriaethau a adnabyddir yno.

7. Dadansoddiad o berfformiad

A) Ymarfer Da

- Sefydlu Grŵp Tasg i ymateb i ac adrodd ar ymateb Cyngor Gwynedd i fframwaith strategol Mwy na Geiriau
- Gweithredu ar argymhellion y Ganolfan Cynllunio Iaith mewn perthynas â chontractau Gwasanaethau Cymdeithasol
- Ystyried ehangu'r prosiect Pencampwyr iaith i Gartrefi Preswyl y Cyngor
- Adolygu a chytuno ar Ganllawiau Iaith rhwng gwasanaeth Derwen a'r Bwrdd Iechyd, mewn cydweithrediad a Swyddfa'r Comisiynydd

B) Meysydd Blaenoriaeth

- Ymateb i ofynion y Safonau Iaith, gan sicrhau ein bod, ple bynnag bosib, yn anelu at fynd tu hwnt i'r gofynion craidd
- Defnyddio'r Safonau Iaith fel man cychwyn i wella'n ddarpariaeth ac i ddwyn perswâd ar gyrff eraill i wella eu darpariaeth cyfrwng Cymraeg
- Gosod trefniadau er mwyn gallu mesur ac adrodd ar ein cydymffurfiaeth a'r Safonau Iaith.

8. Cyhoeddi Gwybodaeth

Byddwn yn cyflwyno'r Adroddiad i Bwyllgor Iaith y Cyngor ac yna i Gomisiynydd y Gymraeg. Bydd y dogfennau yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor.

ENW'R PWYLLGOR CRAFFU	Pwyllgor Craffu - Gwasanaethau
DYDDIAD Y CYFARFOD	10 Ebrill 2014
TEITL YR EITEM	Fframwaith Strategol 'Mwy na Geiriau' – sefyllfa cyngor Gwynedd
AELOD CABINET	Y Cyngorydd R H Wyn Williams

1.Pwrpas yr adroddiad

1.1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw adrodd ar y modd y mae'r cyngor yn ymateb i ofynion y 'Fframwaith Strategol ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg mewn lechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol – Mwy na Geiriau' (Mwy na Geiriau).

1.2 Rhoddir gwybodaeth am y cynnydd sydd wedi ei wneud yn erbyn disgwyliadau Llywodraeth Cymru, a chynigir gwybodaeth mewn ymateb i gwestiynau penodol a godwyd gan y cyfarfod paratoi ar gyfer y Pwyllgor hwn.

2.Cyd-destun

2.1 Cyhoeddwyd 'Mwy na Geiriau' yn 2012, ynghyd â chynlluniau gweithredu (un ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol, ac un arall ar gyfer y Gwasanaeth lechyd Gwladol) sydd i'w gwreiddu dros 3 blynedd rhwng Ebrill 2013 a Mawrth 2016

2.2 Wrth wraidd y fframwaith strategol, y mae'r ymrwymiad sydd gan wasanaethau cyhoeddus Cymru i ddarparu Gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar y dinesydd, gan gynnwys adnabod mai dim ond trwy gyfrwng y Gymraeg y gall llawer o bobl gyfathrebu eu hangen am ofal a chymryd rhan yn eu gofal fel partneriaid effeithiol.

2.3 Mae egwyddor y 'Cynnig Rhagweithiol' yn treiddio trwy bob rhan o 'Mwy na Geiriau'. Yr hyn a olygir yw bod angen bodloni anghenion iaith y defnyddiwr, a chofio bod gan sefydliadau gyfrifoldeb i adnabod ac i ymateb i angen ieithyddol fel rhan greiddiol o ofal.

2.4 Cyhoeddwyd 'Mwy na Geiriau' yng nghyd destun gofynion cyfreithiol Mesur y Gymraeg (Cymru), ac mae'n bwysig cofio y bydd y safonau ar gyfer y Gymraeg a ddaw yn sgil y Mesur yn arwain at greu hawliau fel y gall siaradwyr Cymraeg dderbyn Gwasanaethau yn Gymraeg.

3. Ymateb y cyngor i Fframwaith Strategol 'Mwy na Geiriau'

3.1 Mae Cyngor Gwynedd wedi ymrwymo i Mwy na Geiriau o'r cychwyn cyntaf, gan ryddhau amser Uwch Reolwr i gynrychioli adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol ar y Grŵp Tasg Gweinidogol a sefydlwyd i baratoi'r Fframwaith Strategol.

3.2 Yn dilyn cyhoeddiad y fframwaith ei hun, mae'r camau canlynol wedi eu cymryd, sydd wedi bod yn allweddol i yrru'r agenda bwysig hon yn ei blaen:

- Comisiynu 'Arolwg o ofynion ac ymarfer Cyngor Gwynedd wrth ddarparu Gwasanaethau Cartrefi Gofal (Preswyl a Nyrsio), a Gofal Cartref', gan y Ganolfan Cynllunio Iaith – cyhoeddwyd y canfyddiadau ym Mawrth 2013
- Cynnwys cytundebau a gweithdrefnau monitro cytundebau wedi eu haddasu mewn ymateb i'r arolwg gan y Ganolfan Cynllunio Iaith
- Dylanwadu ar fanyldeb System Rheoli Gofal a Iechyd Cymunedol, fydd yn cymryd lle ein system gyfredol (RAISE) pan ddaw i derfyn ei hoes yn Ebrill 2016, er mwyn hwyluso'r gwaith o adnabod anghenion ac ymateb iddynt yn briodol
- Sicrhau ymrwymiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol / Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Aelod Cabinet Gofal i gyhoeddi datganiad yn mynegi eu dymuniad i weld sensitifrwydd i'r Gymraeg yn cael ei adlewyrchu ledled y Cyngor, ac yn nodi pwysigrwydd adnabod anghenion iaith Gymraeg defnyddwyr wrth asesu a gofalu am ddefnyddwyr
- Gwybodaeth o'r Cyfrifiad am broffil iaith cymunedau wedi ei gasglu, a'r gwaith sydd ar y gweill i adolygu Cynlluniau Comisiynu yn ymgorffori'r canfyddiadau ac yn mynd i ddylanwadu ar 'Ddatganiadau Sefyllfa'r Farchnad' fydd yn cael eu paratoi dros y misoedd nesaf
- Casglu data ynglŷn â staff gofal Gwynedd, fel sail i gynllunio a gweithredu pellach
- Awdit wedi ei chynnal o'r modd y mae gweithwyr cymdeithasol a gweithwyr eraill yn cofnodi dewis, neu angen iaith y defnyddiwr, a'r casgliadau wedi eu rhannu â'r holl reolwyr perthnasol
- Fel ran o holiadur blynyddol a anfonir at holl gartrefi preswyl a nyrsio mewnol ac allanol Gwynedd, wedi llunio cwestiynau penodol ynglŷn â gallu'r darparwyr hyn i gwrdd ag anghenion iaith defnyddwyr
- Ymrwymiad i ymestyn y cynllun 'pencampwyr iaith' sy'n bodoli o fewn Canolfannau Hamdden y Cyngor i'w holl gartrefi preswyl
- Penodi 'Hyrwyddwr y Gymraeg', ar lefel Uwch Reolwr
- Sefydlu Grŵp Tasg traws-adrannol, i gydlynu'r gweithredu mewn ymateb i'r gofynion cenedlaethol.

4. Ymateb i gwestiynau penodol y cyfarfod paratoi

4.1 Gweler isod y cwestiynau a ofynwyd, ynghyd ag ymateb cryno i bob un.

a. Beth oedd y disgwyliadau ar y Gwasanaethau Cymdeithasol yn sgil cyflwyno Fframwaith Strategol Mwy na Geiriau?

Roedd disgwyliad ein bod yn gweithredu yn unol â'r gofynion o fewn y cynllun gweithredu a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae'r gwaith hyn ar y gweill, ac fel y dangosir uchod, mae cynnydd sylweddol wedi digwydd o fewn y flwyddyn gyntaf.

b. Mae gan y Pwyllgor Craffu gonsyrn penodol am amodau iaith pan y mae'r Cyngor yn comisiynu. Pa mor hyderus all y Cyngor fod bod Gwasanaethau gofal a ddarperir trwy gytundeb ar ran Cyngor Gwynedd yn darparu gwasanaeth Cymraeg, yn recriwtio staff dwyieithog, ac yn cynllunio'r gweithlu er mwyn sicrhau bod staff dwyieithog ar gael ar bob shift?

Mae'r ganran uchaf o'r ddarpariaeth gofal a gomisiynir, o ddigon, ym maes Pobl Hŷn. Gofynwyd i'r Ganolfan Cynllunio iaith adolygu cytundebau ar gyfer gofal cartref a gofal preswyl a nyrsio, a gwnaed 12 o argymhellion. Yn ystod 2013/14, rydym wedi adolygu pob un o'r cytundebau perthnasol er mwyn cryfhau'r cymalau sy'n cyfeirio at y Gymraeg. Rydym hefyd wedi grymuso ein trefniadau monitro er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r cytundebau hyn.

Ein bwriad yw ymestyn y gwaith hwn i weddill meysydd Oedolion a Phlant (gofal dydd, ôl ofal, cynllun lleoli oedolion, llety â chefnogaeth ayb), wrth i'r cytundebau ddod i derfyn eu hoes a chael eu hadnewyddu.

Dylid nodi bod gan yr Uned Gontractau enghreifftiau penodol o achosion lle maent wedi terfynu cytundeb a newid darparwr, oherwydd nad oedd y darparwr yn cwrdd â'r disgwyliadau cytundebol o safbwynt yr iaith Gymraeg.

Mae'r Tîm Broceriaeth, sydd ar hyn o bryd ddim ond yn gweithio ym maes gofal cartref, yn chwarae rôl allweddol gan eu bod yn sicrhau bod gofalwyr Cymraeg eu hiaith yn cael eu cyfeirio at y defnyddwyr sydd angen gwasanaeth yn yr iaith honno. Mae cynlluniau ar y gweill i ymestyn y Tîm hwn i feysydd eraill.

c. Roedd y ddogfen yn nodi 4 categori penodol oedd angen sylw, sef plant a phobl ifanc, pobl hŷn, pobl ag anableddau dysgu a phobl gydag anawsterau iechyd meddwl. Ym mha feysydd mae'r Cyngor yn rhagweld yr her fwyaf?

Mae dau brif faes sy'n peri anhawsterau, sef meysydd lle y mae angen recriwtio staff meddygol, megis cartrefi nyrsio, a meysydd lle mae prinder darpariaeth leol yn golygu ein bod yn comisiynu lleoliadau allsirol. Lleoliadau preswyl yw'r rhain yn bennaf, ym meysydd Plant ac Anabledau Dysgu.

Yr her i ni o safbwynt Pobl Hŷn yw sicrhau darpariaeth ddigonol, i gyd-fynd â'r niferoedd uchel. Mae cyfradd siaradwyr Cymraeg o fewn y categori hwn yn uchel, a'r ffaith bod dementia yn gyflwr arbennig o gyffredin yn cryfhau'r angen am ofal yn y Gymraeg. Yn ogystal â chryfhau ein trefniadau monitro contractau, rydym wedi diwygio ein holiadur blynyddol (holiadur i gywain gwybodaeth gan ein darparwyr) i gynnwys gwybodaeth am lefel a sgiliau gweithwyr o safbwynt y Gymraeg.

ch. Sut mae trefniadau cynllunio'r gweithlu (rotas / caseloads) yn sicrhau argaeledd gweithlu dwyieithog i ddefnyddwyr gwasanaeth Cymraeg eu hiaith a'u teuluoedd?

Oherwydd polisi iaith y Cyngor, mae'r sefyllfa o safbwynt ein gweithlu mewnol yn hynod o gref yng nghyd-destun ein gallu i ddarparu gwasanaethau yn y Gymraeg. Eithriadau prin iawn yw sefyllfaoedd lle nad yw gweithwyr Cymdeithasol yn medru'r Gymraeg. Serch hynny, daw enghreifftiau i'r amlwg o bryd i'w gilydd, lle mae adborth yn profi nad yw gohebiaeth wastad yn cwrdd ag anghenion ieithyddol defnyddwyr gwasanaeth a'u teuluoedd. Bydd angen i'n hyfforddiant a'n goruchwyllo fynd i'r afael â hyn.

Y mae ychydig yn fwy o'r gweithlu gofal rheng flaen yn ddi-Gymraeg, ond mae gan yr adain Ddarparu fewnol drefniadau cadarn o ran adnabod angen iaith a sicrhau bod y gefnogaeth yn cyd-fynd â'r anghenion hynny. I'r dyfodol, y mae angen sicrhau bod polisi iaith y cyngor, o safbwynt recriwtio, yn cael ei ddilyn yn ddi-eithriad.

d. Pa bwysau y mae'r Adran yn ei roi ar asiantaethau eraill ar eu defnydd o'r Gymraeg?

Fel y nodwyd uchod, ar gyfer asiantaethau sy'n darparu gwasanaethau i ddefnyddwyr, mae'r Adran yn gwbl ddiarwys o ran y pwysau, gan ei fod yn rhan o gytundebau darparwyr. Mae cyfrifoldebau i gydweithio â'r Bwrdd Lechyd yn cynyddu, ac mae swyddogion yn cymryd pob cyfle posibl i geisio dylanwadu ar ymarfer a chynyddu ymwybyddiaeth ieithyddol cydweithwyr lechyd. Yn ddiweddar, gwelir enghreifftiau cynyddol lle mae cynrychiolwyr o'r Adran yn mynnu nad yw iaith cyfarfodydd a gweithdai rhanbarthol ac aml-asiantaethol yn troi i'r Saesneg pan fo Cymry fyddai'n dymuno siarad Cymraeg yn bresennol. Mae'r Fforwm Sirol yn fforwm aml-asiantaethol sydd wedi ei sefydlu i hyrwyddo a chydlynu ein gwaith ar y cŷd, a bydd y gynrychiolaeth uwch reolaethol o'r Cyngor yn sicrhau llwyfant priodol i agenda 'Mwy na Geiriau'.

dd. A oes rhwystrau rhag gallu darparu gwasanaethau Cymraeg i ddefnyddwyr? Sut mae'r gwasanaeth yn mynd ati i oresgyn y rhwystrau hynny?

O'i chymharu â gweddill Cymru, rydym ni yng Ngwynedd yn ffodus iawn, gan fod gennym fynediad i weithlu addas sy'n hyddysg yn y Gymraeg a sy'n medru cwrdd â chyfradd uchel o'r anghenion. Serch hynny, y mae recriwtio staff addas yn parhau yn rhwystr mewn rhai ardaloedd a meysydd penodol. Enghraifft yw gofal cartref a gofal nyrsio mewn rhannau o Feirionydd. Rhwystr arall yw agwedd rhai sefydliadau sy'n darparu gofal, a'u dealltwriaeth o'u cyfrifoldebau. Weithiau, ceir gwasanaeth derbyniol o ran gofal un i un, ond bod agweddau megis taflenni gwybodaeth, gwefanau, posteri yn uniaith Saesneg. Rhwystr sy'n codi ei ben yn weddol aml yw bod darparwr yn methu deall Cymraeg ysgrifenedig yn ddigonol i ddeall cynlluniau gofal, a thra'n medru cynnig gofalwr i wneud y gwaith, yn methu sicrhau bod rheolwr neu oruchwyliwr yn medru'r Gymraeg yn ddigon da i gyfarwyddo a goruchwyllo'r aelod staff.

Rydym yn ceisio goresgyn yr anhawsterau hyn, yn gyntaf, trwy werthuso hyd a lled y broblem. Fel y nodwyd eisoes, mae holiadur wedi ei lunio i ganfod gwybodaeth fanwl, fesul darparwr. Rydym wedi cynorthwyo sefydliadau gyda'u hymrwymiad i ddogfennaeth ysgrifenedig dwyieithog trwy gynnwys cyfeiriad at Gymdeithas Cyfieithwyr Cymru mewn cytundebau. Mae'r Bartneriaeth Gweithlu a'r Fforwm Darparwyr yn ddau grwp allweddol o ran cynnig cyngor, gwybodaeth a hyfforddiant arbenigol ar y cynnig rhagweithiol ac ymwybyddiaeth iaith. Ym mis Chwefror eleni, cynhaliwyd hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith ar gyfer aelodau etholedig, gan obeithio y byddai'r egwyddorion yn treiddio ymhellach. Mae adolygiad 'Dechrau i'r Diwedd' ar fin cychwyn ym maes Oedolion, a'r bwriad yw sicrhau bod Mwy na Geiriau yn treiddio fel thema trwy gydol yr adolygiad o ansawdd a phriodoldeb ein gwasanaethau cyfredol.

e. I ba raddau mae'r gwasanaeth wedi llwyddo i integreiddio Mwy na Geiriau fel rhan o ddiwylliant yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol ee. defnyddwyr yn ganolog, cynnig rhagweithiol?

Oherwydd polisi iaith y Cyngor, rydym yn hynod ffodus yn yr ystyr ein bod eisoes, cyn cyhoeddiad Mwy na Geiriau, yn bell iawn ar y daith tuag at wireddu'r gofynion. Oherwydd bod y Gymraeg yn iaith gynhenid i gymaint o ddefnyddwyr gwasanaeth ac aelodau staff, rydym yn bodloni llawer o'r gofynion. Yr hyn sydd wedi ei gryfhau dros y misoedd diwethaf yw ymlediad y diwylliant hwn yn ehangach, i'r gymuned gofal y tu hwnt i ffiniau'r Cyngor. Trwy weithio mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill, yn cynnwys darparwyr, rydym yn gweld cynnydd o ran ein gallu i gwrdd â gwir anghenion ieithyddol pobl. Serch hynny, ni allwn orffwys ar ein rhwyfau, a'r bwriad yw parhau i gynnig hyfforddiant, adolygu ein dulliau cofnodi a monitro ein cytundebau.

5. Y Ffordd Ymlaen

5.1 Croesewir sylwadau'r Pwyllgor ar yr wybodaeth uchod, a bydd y sylwadau hyn yn ddefnyddiol wrth grynhoi ein cynnydd yn Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Statudol (cais penodol sydd wedi dod gan Lywodraeth Cymru).

5.2 Cynigir bod adroddiad pellach ar gynnydd yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor hwn a / neu y Pwyllgor Iaith, ymhen cyfnod o 6 mis i flwyddyn.

Adroddiad Mai 2014 ar Hyfforddiant Iaith Gymraeg 2013

Hyfforddiant Iaith Gymraeg Staff Cyngor Gwynedd
Ionawr – Rhagfyr 2013

	Ionawr/ Gorffennaf 2013	Awst/ Rhagfyr 2013	
Cyfanswm Dysgwyr – pob safon	50	47	
<u>Adrannau</u>		<u>Adrannau</u>	
Addysg	4	Addysg	2
Cefnffyrdd	4	Cefnffyrdd	6
Cyllid	1	Cyllid	1
Darparu a Hamdden	16	Gwas C/Tai/DH	27
Economi a Chymuned	0	Econ a Chymuned	0
Gwasanaethau Cymdeithasol	10	Rheoleiddio	4
Rheoleiddio	4	Strategol a Gwella	1
Strategol a Gwella	2	Ymgynghoriaeth	6
Ymgynghoriaeth	9		
<u>Darparwyr y Cyrsiau:</u>			
<ul style="list-style-type: none"> • Tiwtor Mewnol: 2 ddsbarth yng Nghaernarfon drwy'r flwyddyn • Prifysgol Bangor • Prifysgol Aberystwyth • Grŵp Llandrillo-Menai (Coleg Meirion Dwyfor/Coleg Menai) • Nant Gwrtheyrn 			
<u>Cyrsiau Dwys Allanol (h.y. 3-5 diwrnod):</u>			
<ul style="list-style-type: none"> • Nant Gwrtheyrn • Ysgol Ionawr Dolgellau (Prif. Aberystwyth) • Ysgol Galan Bangor a'r Wyddgrug(Prif. Bangor) • Ysgol Basg Dolgellau (PA) • Ysgol Haf Bangor/Pwllheli/Yr Wyddgrug (PB) • Ysgol Haf Dolgellau 			7 3 3 1 2 2
<u>Cwrs Cymraeg yn y Gweithle – 3 diwrnod – pob lefel iaith</u> <i>Ar y cyd gyda Chynghorau Sir Môn, Conwy, Flint, Heddlu Gogledd Cymru, Gwasanaeth Tân, Cyngor Cefn Gwlad</i> 10 – 12 Medi 2013			10

<u>Gloywi Iaith</u> <u>Cyrsiau hyd at 20 awr dros gyfnod o wythnosau</u> <u>Cyfanswm:</u> Coleg Menai Bangor/Coleg Llandrillo Dolgellau	12
<u>Gweithdai Mewnol hanner diwrnod:</u> Treiglo Amserau'r Ferf Gwallau Cyffredin	11

Monitro Cynnydd 2013

Anfonwyd ffurflenni monitro cynnydd at y tiwtoriaid a'r rheolwyr llinell yng Ngorffennaf a Rhagfyr er mwyn nodi cynnydd y staff yn y Gymraeg ac unrhyw sylwadau perthnasol eraill yn ymwneud â'r dysgu. Roedd lle i dicio blychau :

- *Dim cynnydd mesuradwy*
- *Ychydig*
- *Llawer*

gyferbyn â *Gwrando a Siarad, Darllen ac Ysgrifennu*. Os na chafwyd sylwadau gan y rheolwr yna cymerwyd sylwadau'r tiwtor fel tystiolaeth.

Dyma'r canrannau - o'r dystiolaeth ddaeth i law:

	Llawer	Ychydig	Dim cynnydd mesuradwy
Gorffennaf 2013	48%	38%	14%
Rhagfyr 2013	46%	46%	8%

Sylwadau:

Trosiant staff

Mae niferoedd staff sy'n mynychu hyfforddiant iaith yn newid yn gyson fel mae staff yn mynd a dod am wahanol resymau.

Dyma'r sefyllfa yn ystod 2013:

Nifer wedi eu tynnu oddi ar y rhestr - 14

Rhesymau :

Cyrraedd y nod - 2

Gadael y Cyngor - 6

Methu â chael dosbarth addas - 4

Rhesymau eraill /Dros dro/cais Rheolwr - 2

Lefelau Iaith CBAC – Rhagfyr 2013

Canran staff oedd yn mynychu gwersi ar y gwahanol risiau iaith

Mynediad: Cwrs Mynediad 1 a 2, neu hanner cyntaf Cwrs Wlpan

Sylfaen: Cwrs Sylfaen neu ail hanner Cwrs Wlpan

Canolradd: Cwrs Canolradd neu'r Cwrs Pellach - cyfateb i safon TGAU

Uwch: Cwrs Uwch (1) Cwrs Meistroli (2)

Mynediad	Sylfaen	Canolradd	Uwch
27%	23%	20%	30%

Gwobr Goffa Dafydd Orwig 2013/14

Gwobrwywyd dwy eleni – y ddwy yn dod o blith y ‘Dechreuwyr’:

- Aeth y wobr gyntaf i **Caroline Jackson** o Ganolfan Hamdden Blaenau Ffestiniog.
- Aeth yr ail wobr i **Tracey Linton**, Cymhorthydd Gofal yng nghartref preswyl Frondeg, Caernarfon.

Y Fframwaith Iaith newydd – diweddariad

Does dim symudiad wedi bod i fabwysiadu'r fframwaith iaith newydd yn swyddogol hyd yma.

Dangosyddion Lefelau Iaith CBAC

Mae'r offeryn yma yn ffordd dda o asesu lefelau iaith staff - boed ddysgwyr neu siaradwyr Cymraeg hyderus.

Mae'r Dangosyddion Iaith wedi eu seilio ar gamau cydnabyddedig dysgu Cymraeg i Oedolion - sef:

- Mynediad
- Sylfaen
- Canolradd
- Uwch
- Hyfedredd

Ddechrau 2013 cymerodd Cyngor Gwynedd ran mewn peilot i weld sut oedd hyn yn gweithio. Mae'n galluogi unigolion i sefyll prawf ar eu cyfrifiaduron mewn Darllen, Ysgrifennu, Gwranddo a Siarad. Mae 47 wedi cymryd rhan ynddo hyd yma.

Mae mwy nag un rheolwr wedi gwneud ymholiadau yn ddiweddar er mwyn eu defnyddio i asesu lefel iaith eu staff, gan gynnwys staff rhugl er mwyn asesu lefel iaith ysgrifenedig.

CYFARFOD:	PWYLLGOR IAITH
DYDDIAD:	MEHEFIN 26 2014
TEITL:	DIWEDDARIAD AR Y SAFONAU IAITH
AWDUR:	SWYDDOG CYDRADDOLDEB AC IAITH
PWRPAS YR ADRODDIAD	DIWEDDARU'R PWYLLGOR ER GWYBODAETH

1. CEFNDIR

1.1 Yng nghyfarfod y Pwyllgor Iaith ar Ebrill 4, cadarnhawyd y bod Cyngor Gwynedd yn darparu ymateb i Ymchwiliad Safonau'r Comisiynydd Iaith.

1.2 Gwybodaeth ffeithiol ynglŷn â'r hyn sy'n cael ei ddarparu drwy gyfrwng y Gymraeg a'n gallu i gydymffurfio a gofynion y Safonau Arfaethedig oedd prif ofyniad yr Ymchwiliad. Fodd bynnag cyflwynwyd sylwadau mwy cyffredinol yn ogystal ynglŷn â'n hymateb fel Cyngor i'r hyn a gyflwynir fel Safonau Arfaethedig.

1.3 Cytunodd y Pwyllgor Iaith ar y sylwadau hyn ar Ebrill 4.

1.4 Erbyn hyn, mae Comisiynydd y Gymraeg wedi cyhoeddi Adroddiad Safonau, sy'n nodi casgliadau'r Ymchwiliad Safonau. Yn ogystal â'r Adroddiad hwn, mae'r Comisiynydd wedi cynhyrchu dogfen gyngor at sylw Gweinidogion Cymru sy'n crynhoi'r sylwadau a dderbyniwyd gan y cyhoedd a grwpiau diddordeb ar y Safonau arfaethedig eu hunain.

1.5 Gellir gweld y ddogfennaeth uchod ar wefan Comisiynydd y Gymraeg:

<http://www.comisiynyddygyymraeg.org/cymraeg/newyddion/Pages/Comisiynydd-d-yn-cyflwyno-adroddiadau-safonau-a-chyngor-i-Weinidogion-Cymru.aspx>

2. CAMAU NESAF

2.1. Rhagwelir y daw'r rheoliadau i rym fis Tachwedd 2014.

PWYLLGOR	PWYLLGOR IAITH
DYDDIAD	Mehefin 26, 2014
TEITL YR ADRODDIAD	Rhaglen Waith y Pwyllgor
ARGYMHELLIAD	Cymeradwyo'r Rhaglen, gan ychwanegu yn ôl Yr angen
AWDUR	Swyddog Cydraddoldeb ac Iaith

1. Cefndir

- 1.1. Ym mis Hydref 2013, yn dilyn trafodaeth ym Mhwyllgor Mehefin 27, cyflwynwyd Rhaglen Waith ar gyfer y Pwyllgor iaith. Mae'r tabl isod yn diweddarau'r Rhaglen ar gyfer y misoedd nesaf. Mae'r Rhaglen yn amlinellu'r eitemau sydd wedi eu codi eisoes gan Aelodau yn ogystal ag eitemau sefydlog megis cwynion iaith. Gan nad ydym yn sicr o'r gofynion eto, rhoddir amser am eitem ar y Safonau iaith ym mhob cyfarfod.
- 1.2. Yn amlwg, bydd mwy o eitemau'n codi o gyfarfod i gyfarfod, ac felly amlinelliad sylfaenol a nodir isod

2. Rhaglen Waith Ddrafft 2014-2015

23/10/14	29/01/15	23/04/15	Mehefin 2014
Adroddiad Comisiynydd y Gymraeg ar yr Ymchwiliad Safonau	Diweddariad ar y Safonau Iaith	Diweddariad ar y Safonau Iaith	Diweddariad ar y Safonau Iaith
Ymateb y Comisiynydd i'n Hadroddiad Monitro Iaith	Defnydd 3ydd Parti o adnoddau'r Cyngor	Diweddariad ar HunanIaith/ Strategaeth Ieithyddol Gwynedd	Polisi Enwau Tai a Strydoedd
Cymorth ieithyddol i fusnesau	Cyflwyniad Adrannol	Cyflwyniad Adrannol	Cyflwyniad Adrannol
Cyflwyniad Adrannol	Cwynion Iaith	Cwynion Iaith	Cwynion Iaith
Cwynion iaith			

3. Argymhelliad

3.1. Cymeradwyo'r Rhaglen Waith ddrafft, gan ychwanegu'n ôl yr angen.

CYFARFOD:	PWYLLGOR IAITH
DYDDIAD:	MEHEFIN 27, 2014
TEITL:	YMGYRCH MYNYDDOEDD PAWB
AWDUR:	SWYDDOG DATBLYGU IAITH
PWRPAS YR ADRODDIAD:	CAIS AM GEFNOGAETH GAN YMGYRCH MYNYDDOEDD PAWB

DATGANIAD MYNYDDOEDD PAWB

Mewn cynhadledd, o dan yr enw 'Mynyddoedd Pawb' a gynhaliwyd yng Ngwersyll Glan-llyn, Llanuwchllyn ar y 23ain o Dachwedd 2013 daeth nifer o gymdeithasau ac unigolion ynghyd. Pwrpas y gynhadledd oedd trafod y bygythiad sydd i enwau Cymraeg ar nodweddion tirlun Cymru, megis mynyddoedd, cymoedd a llynnoedd yng ngwyneb proses o ddisodli'r enwau hynny gyda chyfieithiadau i'r Saesneg neu fathu enwau llwyr wahanol yn Saesneg.

Yn sgil y gynhadledd dirprwywyd cynrychiolwyr o'r sefydliadau a'r mudiadau canlynol i lunio datganid a fyddai'n cwmpasu pryderon ac amcanion y gynhadledd: Menter Iaith Conwy; Antur Stiniog; Cymdeithas Edward Llwyd; Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru; Clwb Mynydda Cymru, Yr Urdd a Chymdeithas yr Iaith Gymraeg. Gweler atodiad 1 am gopi o'r datganiad.

Drwy rwydwaith Mentrau Iaith y gogledd daeth cais am gefnogaeth at hunaniaith gan drefnwyr ymgyrch Mynyddoedd Pawb.

Galwa ymgyrch Mynyddoedd Pawb gyrff cyhoeddus, y sefydliadau trydedd sector a'r mentrau preifat hynny sy'n weithredol yn y maes amgylcheddol, twristiaeth a gweithgareddau awyr agored i barchu'r cyfoeth o enwau Cymraeg ar nodweddion ar dirlun Cymru.

Yn benodol galwant ar i:

- Lywodraeth Cymru i ddod a newid enwau lleoedd traddodiadol a hir sefydlog dan reolaeth y drefn gynllunio;
- ganolfannau awyr agored barchu enwau lleoedd traddodiadol brodorol;
- asiantaethau cyhoeddus, sefydliadau'r drydedd sector a mentrau preifat sy'n weithredol yn y sectorau amgylcheddol; treftadaeth a thwristiaeth dynnu sylw at y cyfoeth enwau lleoedd sy'n perthyn i dirlun Cymru.

Galwa ymgyrch Mynyddoedd Pawb hefyd ar gyrff cyhoeddus, sefydliadau trydedd sector a mentrau preifat sy'n cefnogi eu hachos ddatgan hynny er mwyn eu gosod mewn sefyllfa gryfach i fynd a'r maen i'r wal.

Mae llythyr o gefnogaeth eisoes wedi ei anfon at drefnyddion yr ymgyrch gan gadeirydd Grŵp Cyfeiriad Strategol hunaniaith yn datgan cefnogaeth, gweler atodiad 2.

TRAFODAETHAU PWYLLGOR IAITH YN Y GORFFENNOL

Yn ei gyfarfod ar Hydref 11, 2012 trafododd y Pwyllgor Iaith yr enwau safonol a roddir ar strydoedd, tai a lleoedd. Bryd hynny nodwyd yr hyn dywed Cynllun Iaith Cyngor Gwynedd:

“.....enwau Cymraeg yn unig a ddefnyddir gan y Cyngor mewn perthynas ag enwau lleoedd, afonydd, mynyddoedd, strydoedd newydd ac ati, ac ar sefydliadau'r Cyngor ac eithrio lle bo'r Cyngor ei hun wedi awdurdodi defnyddio fersiwn/fersiynau eraill.” 4.2.1.

Nodwyd hefyd yn ei gyfarfod ym mis Mehefin 2012 bwysigrwydd defnyddio enwau Cymraeg lleol ar nodweddion daearyddol megis trwynau, ynysoedd, clogwyni ayb. A hefyd i sicrhau enwau Cymraeg ar Lwybr Arfordir Cymru.

Ymddengys fod ewyllys da a chefnogaeth i amcanion yr ymgyrch yn eang ac y byddai cefnogith ystod o fudiadau ac asiantaethau yn Gymorth I ddwyn ffrwyth. Mae Mapiâu'r Ordnans eisoes, fel ac yr adroddwyd i'r Pwyllgor Iaith fis Hydref, 2012 wedi datgan eu bod yn agored i ystyried newid iaith enwau penodol ar gais budd-ddeiliaid tebyg i awdurdodau lleol neu Gymdeithas Enwau Lleoedd Cymru.

GOFYNNIR I'R PWYLLGOR:

Roi eu sylwadau ar gais ymgyrch Mynyddoedd Pawb am gefnogaeth i'w amcanion

I ystyried cysylltu â threfnwyr yr ymgyrch i ddatgan cefnogaeth Pwyllgor Iaith Cyngor Gwynedd a'r amcanion hynny.

Penderfyniad Cynhadledd 'Mynyddoedd Pawb' a gynhaliwyd yng Ngwersyll Glanllyn, Llanuwchllyn ar 23ain o Dachwedd, 2013:

“Dymunwn fynegi pryder bod prosesau ar waith sy'n peryglu enwau lleoedd Cymraeg. Y prosesau y cyfeiriwn atynt yw 1. Anwybyddu enw Cymraeg ar le, a rhoi enw Saesneg arno. 2. Gosod enw Saesneg ochr yn ochr ag enw Cymraeg yn ddiangen, gyda'r enw Saesneg yn cael ei ddefnyddio'n gynyddol mewn cyhoeddiadau ac ar y cyfryngau. 3. Peidio â chynnwys enwau Cymraeg ar fapiau, gydag enwau Saesneg yn cael eu bathu ar gyfer y lleoedd. 4. Disodli enwau Cymraeg gwreiddiol trwy ddefnyddio cyfieithiadau o enwau Saesneg ar y lleoedd.

Yr ydym o'r farn y dylid codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd diogelu enwau lleoedd Cymraeg, a bod gan sefydliadau a chymdeithasau gwirfoddol, yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol, ran allweddol yn y gorchwyl. Hefyd, dylai'r ysgolion sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael cyfle i werthfawrogi cyfoeth enwau lleoedd Cymraeg fel rhan o'u hetifeddiaeth genedlaethol.

Credwn y dylai enwau lleoedd ynghyd a'r dreftadaeth a'r hanes sy'n gysylltiedig â nhw, fod yn rhan annatod o gyrsiau astudiaethau'r amgylchedd mewn addysg bellach ac addysg uwch, ac o gyrsiau gweithgareddau awyr agored gan gyrff eraill. Dylid sicrhau bod cyrff hyfforddi, canolfannau a chlybiau sy'n ymwneud â mynydda a gweithgareddau awyr agored yn parchu enwau lleoedd Cymraeg.

Gofynnwn i'r cyrff perthnasol megis Llywodraeth Cymru, Awdurdodau Lleol, Cyfoeth Naturiol Cymru, Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, ac Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol (sydd â dyletswydd i “Warchod a gwella treftadaeth ddiwylliannol y Parc Cenedlaethol”) ynghyd a chyrff eraill yn y sectorau statudol, cyhoeddus, gwirfoddol a phreifat, i gymryd camau priodol i ddiogelu enwau lleoedd Cymraeg.”

Dylem ddathlu cyfoeth ein henwau lleoedd:

i ysgogi parch a diddordeb yn yr iaith Gymraeg ac i sicrhau a chynyddu'r defnydd ohoni.

cynyddu'r ymdeimlad o hunaniaeth ymysg cymunedau lleol a rhannu cyfoeth ein treftadaeth ddiwylliannol gydag eraill.

gall ennyn diddordeb ac ymwybyddiaeth ymwelwyr o gyfoeth ein treftadaeth leol ddod a buddion addysgiadol ac economaidd i ardaloedd.

Mai 15fed, 2014

Esyllt Tudur
Mynyddoedd Pawb
Menter Iaith Conwy
Y Sgwar
Llanrwst
LL26 0LG

Annwyl Esyllt

Diolch i chi am y cyfle i ddatgan cefnogaeth hunaniaith i ymgyrch Mynyddoedd Pawb.

Hoffwn yn gyntaf groesawu sefydlu'r ymgyrch. Dros gyfnod hir o'n hanes fel Cymry bu enwau ein mynyddoedd a'n hafonydd a nodweddion eraill ein tirwedd yn graddol newid. Mynnodd llywodraethau, awdurdodau, busnesau ac unigolion fathu enwau Saesneg o'r newydd oherwydd eu hanwybodaeth neu eu hamharodrydd i gydnabod dilysrwydd enwau Cymraeg. A thrwy hynny, fe gollwyd rhai enwau am byth, a gyda nhw talp pwysig o'n hanes fel Cymry.

O safbwynt personol mi ydw i wedi bod yn ymwneud â gwarchod ac arddel enwau Cymraeg ers blynyddoedd, boed hynny gyda Chymdeithas yr Iaith neu fel aelod o gynghorau sir a chymuned.

Gallaf ddatgan yma gefnogaeth lwyr hunaniaith i'r ymgyrch. Byddaf hefyd yn gosod ymgyrch Mynyddoedd Pawb fel eitem ar raglen nesaf cyfarfod ein Grŵp Cyfeiriad Strategol. Bryd hynny gallwn fel grŵp aml asiantaethol adnabod dulliau pellach o hyrwyddo'r ymgyrch yma yng Ngwynedd.

Byddwn hefyd yn croesawu'r cyfle i weithio ar y cyd gyda holl Fentrau Iaith Cymru i sicrhau fod yr ymgyrch yn derbyn sylw ym mhob cwr o Gymru yn ogystal ag ar lefel genedlaethol.

Edrychaf ymlaen at gydweithio'n bellach.

Yn gywir,

Dafydd Iwan
Cadeirydd Grŵp Cyfeiriad Strategol hunaniaith

CYFARFOD:	PWYLLGOR IAITH
DYDDIAD:	MEHEFIN 26 2014
TEITL:	CWYNION IAITH
AWDUR:	SWYDDOG CYDRADDOLDEB AC IAITH
PWRPAS YR ADRODDIAD	CYFLWYNO'R CWYNION DIWEDDARAF I'R PWYLLGOR.

DYDDIAD	CWYN	YMATEB.
Ebrill 2014	Cwyn gan aelod o'r cyhoedd a dderbyniodd ffurflen Trwyddedu Tai Amldeiliadaeth uniaith Saesneg	Y Gwasanaeth yn ymchwilio'r mater, ac yn darganfod camgymeriad; cydnabod bod hyn yn groes i'r disgwyl, ac anfon ymddiheuriad
Ebrill 2014	Cwyn ynglŷn â Chymraeg gwallus mewn hysbyseb am Ofalwyr Maeth	Fersiwn drafft (heb ei wirio) wedi'i anfon at y Daily Post mewn camgymeriad. Anfonwyd fersiwn cywir at y papur ac ymddiheuriad i'r sawl a gwynodd
Ebrill 2014	Cwyn ynglŷn ag ymateb ffon Saesneg mewn Canolfan Hamdden	Y sylwadau'n derbyn sylw'r Gwasanaeth drwy'r cynllun Pencampwyr Iaith. Ymddiheuriad i'r cwynydd
Ebrill 2014	Cwyn ynglŷn â Therapydd Galwedigaethol yn gyndyn o ddefnyddio'r Gymraeg gyda chleient	Canfod mai diffyg ymwybyddiaeth iaith oedd tu ôl i hyn. Bydd Swyddog Datblygu'r Gweithle mewn cydweithrediad ag Uned Hyfforddi Gwasanaethau Cymdeithasol yn edrych tuag at gryfhau'r elfen yma fel rhan o wersi Cymraeg y Cyngor.
Mai 2014	Cwyn am becyn tendr uniaith Saesneg mewn perthynas ag ail-wynebu ffordd ger mynedfa ysgol	Er bod y contractwyr wedi nodi dewis i dderbyn dogfennau technegol cyfrwng Saesneg, y Gwasanaeth Eiddo yn derbyn y camgymeriad ac yn ymddiheuro nad oedd y dogfennau cyflwyno tendr yn ddwyieithog. Cadarnhau bod staff yn cael eu hatgoffa o'r gofynion.